# ECO'R WYDDFA

RHIF 1 CHWEFROR 1976 PRIS : 8g.


# EICH PAPUR CHI

**Dyma fo o'r diwedd – papur bro plwyfi Llanrug, Llanberis a Llanddeiniolen. Bu'r gobaith o sefydlu papur o'r math yma yn freuddwyd i lawer ers sawl blwyddyn. Trodd y breuddwyd yn bosibilrwydd ym mis Hydref 1975, a dyma fo ar ddiwedd Chwefror 1976 – yn ffaith.**

### EI SEFYDLU

Daeth nifer go dda o drigolion y fro at ei gilydd i Ysgol Brynrefail, Llanrug i drafod y posibiliadau o'i sefydlu. Ar ôl cael sgwrs a thrafodaeth hir â chynrychiolwyr o ddau bapur bro cyfagos, sef Llais Ogwen a Lleu, daethpwyd i'r penderfyniad i sefydlu ECO'R WYDDFA. Mae'n dyled i'r cynrychiolwyr hyn yn fawr iawn. Aethpwyd ati yn ystod wythnosau'r gaeaf i lunio polisi a rhyw fath o gyfansoddiad i'r papur yn ogystal â dewis swyddogion i fod yn gyfrifol am wahanol adrannau ac agweddau ohono.

### BABI NEWYDD

Papur newydd misol fydd ECO'R WYDDFA, gyda'i holl staff yn gweithio'n wirfoddol a di-dâl. Rhaid wrth staff i'w redeg, ond ni, trigolion y fro fydd piau'r papur. Ni fydd yn ei reoli, ei ysgrifennu, ei werthu a'i brynu. Yn naturiol felly mae'n rhaid i mi apelio'n daer arnoch chi'r trigolion i'n cefnogi a chydweithredu â ni. Os ydi'r babi newydd yma am fyw, y mae'n rhaid i chi ei dderbyn i'ch tŷ a rhoi sylw arbennig iddo.

### APEL GO IAWN

Dowch yn llu gyda'ch erthyglau a'ch pytiau, eich storiau a'ch jôcs, eich newyddion a'ch clecs! Rhaid dilladu'r babi. Cysylltwch â rhyw ohebwr neu swyddog os bydd gennych gyfraniad, boed y cyfraniad hwnnw ar lafar neu yn ysgrifenedig. Beth am fynd ati i hel a dethol deunydd ar gyfer hanes y fro neu 'sgrifennu am hen gymeriadau diddorol? Oes gennych chi hen luniau? Gallwn wneud defnydd mawr o'r rheini. Beth am fynd ati i hel newyddion o fis i fis? Bydd gohebwyr bro yn hynod falch o'ch cymorth. Mae enw, cyfeiriad a rhif ffôn pob gohebwr bro ar ddiwedd newyddion y pentrefi. Rhowch gymorth iddynt. Beth am roi cynnig ar y croeseiriau a'r posau? Oes gennych chi rywbeth i'w werthu? Gosodwch hysbyseb yn y papur. Dowch, gwnewch ddefnydd i'r eithaf ohono. Eich papur chi ydi o.

### RHYDDID BARN

Mae rhyddid i bawb ddatgan ei farn yn ECO'R WYDDFA. Byddaf fel golygydd yn hynod o falch o dderbyn llythyrau gan unrhyw un sydd am weld ei farn, ei sylwadau, ei feirniadaeth, ei werthfawrogiad ar unrhyw ddigwyddiad neu bwnc yn cael ei gyhoeddi. Beth bynnag fo'ch rhesymau – 'sgwennwch i mewn.

### LLWYFAN GWLEIDYDDOL

Bydd yn bapur hollol annibynnol, heb gysylltiad ag unrhyw blaid wleidyddol, enwad crefyddol nac unrhyw sefydliad arall. Yn unol â pholisi'r papur ni chaniateir i'r bwrdd golygu ddefnyddio'r papur i gefnogi na lledaenu propaganda ar ran unrhyw blaid. Ond mae rhyddid i unrhyw blaid i'w ddefnyddio fel llwyfan ar unrhyw achlysur i ddatgan eu barn ac i gynnwys adroddiadau o'u gweithgareddau. Felly os na wneir defnydd o'r cynnig yma gennych chi wleidyddion a changhennau politicaidd y fro – peidiwch, da chi, â beio neb. Mae'r sefyllfa 'nawr ar ddu a gwyn.

### BABI CYMRAEG

Babi Cymraeg fydd hwn. Dyna oedd pwrpas pennaf ei sefydlu. Rydym beunydd yn cael ein hatgoffa o'r dirywiad yn yr iaith ac hefyd broffwydoliaeth gwybodusion am ei dyfodol. Mae rhai wedi mynd mor bell â rhifo'r blynyddoedd sydd ar ôl iddi. Allwn ni fel trigolion y fro adael i'r iaith farw dan ein trwynau? Ein gobaith mawr ni a gobaith papurau bro ar hyd a lled Cymru yw estyn oes yr iaith, ac os yn bosibl ei chadw'n ddiogel ar wefusau ein plant hyd dragwyddoldeb.

### CÂN ECO'R WYDDFA

**Fe gewch yn Eco'r Wyddfa**
**Rywbeth at bob dant,**
**Ysgrifau a barddoniaeth**
**A chomic bach i'r plant.**
**Wel, prynwch Eco'r Wyddfa**
**A chewch newyddion bro**
**O Benisarwaen a Bethel**
**Llanrug a Chwm-y-Glo.**

*Cytgan:*
*Eco'r Wyddfa, Eco, Eco'r Wyddfa*
*Dyma'n papur bro.*
*Eco'r Wyddfa, Eco'r Wyddfa,*
*Dyma'r papur bro.*

**O'i wely yng Ngwasg Gwynedd**
**Unwaith yn y mis**
**Daw'r Eco i'ch cartrefi,**
**Rhesymol yw ei bris.**
**Newyddion o Ddinorwig,**
**Deiniolen a Fachwen;**
**Am gasglu sgŵps yr ardal**
**Bydd Eco'r Wyddfa'n ben.**

**Tudalen ar chwaraeon,**
**Llythyrau, pynciau'r dydd,**
**A lle i bawb ohonoch**
**Gael lleisio'ch barn yn rhydd;**
**Llanberis a Brynrefail,**
**O Glwt y Bont i'r Nant,**
**Wel, dyma'r papur gorau**
**I Taid a Nain a'r plant.**

*Selwyn Griffith.*

# BETH DDAW O'R YSGOL?

**Dair blynedd ar ddeg yn ôl, prynwyd hen Ysgol Brynrefail gan y "Rainer Foundation" i'w defnyddio yn ysgol i blant oedd ag angen addysg a sylw arbennig. Oherwydd prinder arian, bu'n rhaid cau'r ysgol, ac erbyn hyn mae'r adeilad unwaith eto'n wag.**

### PRYDER

Ar ôl hyn, mynegodd nifer o drigolion eu barn ynghylch dyfodol yr ysgol, a rhai'n bryderus oherwydd sibrydion y gellid defnyddio'r lle fel man aros i weithwyr. Er mwyn mynd i lygad y ffynnon, bu gohebwyr Eco'r Wyddfa mewn cyfarfod cyhoeddus i wyntyllu'r mater. Rhoed cyfle i bobl Brynrefail fynegi eu barn yn gyhoeddus yng nghwmni'r Cynghorydd P. Larsen, Cyngor Arfon, y Cynghorydd Gwyn O. Jones, Cyngor Gwynedd, a Mr. Ken Jones o'r Cyngor Cymuned. Da oedd cael clywed sylwadau cynrychiolydd y 'Rainer Foundation', sef Mr. Clenell, y Prif Warden. Llywydd y noson oedd Mr. G. Pritchard.

### AWGRYMIADAU


Cafwyd trafodaeth fywiog, ac ymysg yr awgrymiadau o du'r pentrefwyr yr oedd i Gynghorau Sir Cymru ei phrynu yn Ganolfan Addysgiadol Awyr Agored, ond i'r pentref ei defnyddio fel Canolfan Gymdeithasol yn ogystal. Teg yw dweud mai dyna ddymuniad y mwyafrif yn y cyfarfod, a dyna'r argymhelliad a basiwyd.

### CEFNOGAETH CYNGHORWYR

Roedd y Cyng. P. Larsen yn ffyddiog na fyddai'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan yn defnyddio'r ysgol fel llety i weithwyr, a phwysleisiodd y dylid cadw golwg am geisiadau oddi wrth sefydliadau am ganiatâd i newid defnydd yr adeilad. Mae hi a'r Cyng. Gwyn O. Jones yn gyfrifol am hyn.

### TROEDIO'N OFALUS

Barn Eco'r Wyddfa yw y dylid troedio'n ofalus a chryfhau'r ymgyrch leol i sicrhau y defnyddir yr hen ysgol er budd yr holl ardal. Hyderwn y bydd Cyngor Gwynedd yn ystyried y mater yn ddifrifol gan fod canolfannau o'r fath yn brin yng nghefn gwlad.



ECO'R WYDDFA

RHIF 1 CHWEFROR 1976

Golygydd : Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon Llanrug.

Ffôn : Caernarfon 3719.

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

# LLYTHYRAU

*Annwyl Syr,*

*Y lle pwysicaf i ieuenctid Llanberis ar nos Wener yn ystod misoedd y gaeaf yw y Clwb. Yno, mae pawb yn cael chwarae y gemau y maent ei eisiau — tenis bwrdd, snwcer, dartiau, gwyddbwyll a phêl droed, neu wrando ar recordiau ac hefyd bod yn rhydd i redeg o gwmpas. Mae'r noson hon yn un o hapusrwydd i bawb yno.*

*Ond dim ond un noson yr wythnos yw hon oddigerth am noson o godi pwysau ac un arall o chwarae badminton — lle sydd i ni fynd — ond i gerdded y strydoedd!! Nid oes ryfedd fod cwyno am sŵn ar y strydoedd yn y nos.*

*Yn Neiniolen mae lle i fynd bob nos bron ac nid oes raid iddo gau ar ddiwedd y gaeaf.*

*Felly, yr hyn mae ieuenctid Llanberis yn ei ofyn yw — Rhoddwch le i ni sydd yn ddigon mawr i gael gemau ynddo ac sydd yn agored ar hyd y flwyddyn, — dim ond felly y gwelwch lai yn crwydro'r strydoedd heb ddim i'w wneud.*

*Yr eiddoch yn gywir,*
*Ernie Graham*
*(Ysg. Clwb Ieuenctid)*

*Annwyl Olygydd,*

*Rhyw bwt o gân i'ch boddio*
*Ar gychwyn gyrfa'r Eco;*
*Cyfarchion llon o gywir fron*
*I'r arwyr fo'n hyrwyddo.*

*Wel, dowch yn llu i'w noddi*
*O'r Wyddfa a'r Eryri;*
*Mae yma ddoniau fawr a mân*
*Mewn llên a chân i'n llonni.*

*Bu bro yr hen Chwareli*
*Yn fawr ei bri am flwyddi;*
*Fe'i gelwid gynt yn 'Athen Bro,'*
*A'i ffyniant i'n hyfforddi.*

*Rwy'n cofio'r hen 'Ddinesydd'*
*Yn hulio ein heolydd;*
*Y 'Papur Pawb' a'r 'Werin' fach*
*I'r fro yn canu clodydd.*

*Rhown gyfle eto hogia'*
*I hybu ECO'R WYDDFA;*
*Wel dowch yn llu mewn llên a chân,*
*Dowch brysiwch am y cynta'.*

*Ymhlith y rhes ardaloedd*
*A restrir wrth eich rhifoedd,*
*Mae pentre bach Clwt Bont ar ôl;*
*Rhowch hwn er mwyn y nefoedd.*

*Bro dawel Dewi Peris*
*A ganodd glod Llanberis,*
*A bro Alafon, brydydd mad,*
*A'i 'Gathlau' mwyn a melys.*

*Dymunwn fythol lwyddiant*
*I'r ECO er pob chwyddiant*
*I wneud ei ran yn ddoeth a da*
*A thrwytho ein diwylliant.*

**John David Evans,**
**Maes y Dref, Clwt y Bont.**

# PWY 'DI PWY

Dyma restr o rai o Swyddogion Eco'r Wyddfa ynghyd â'u cyfrifoldebau. Apeliwn yn daer arnoch i gysylltu â'r rhain os bydd gennych unrhyw gyfraniad i'r papur, boed y cyfraniad hwnnw ar lafar neu yn ysgrifenedig.

Golygydd : *Arwel Jones*

Golygydd Erthyglau : *Norman Williams. Cysylltwch â'r ddau yn y cyfeiriad yma : Gwên-y-Wawr, Glanffynnon, Llanrug. Ffôn : Caernarfon 3719.*

Swyddog Hysbysebion : *John Roberts, 'Brynawelon,' Ffordd yr Orsaf, Llanrug.*

Trefnydd Gwerthiant : *Selwyn Williams, 'Cartref,' Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Ffôn : Caernarfon 3577.*

Golygydd Chwaraeon : *Dafydd Evans, 'Sycharth,' 5, Bryn Eglwys, Penisarwaen.*

Gohebwyr Lleol :
*Anfonwch newyddion Nant Peris a Llanberis i'r Parch. John Owen, 'Bron y Graig,' Llanberis. Ffôn : 388.*
*Anfonwch newyddion Llanrug, Ceunant, Tanycoed, Cwm-y-Glo a Phenisarwaen i Leslie Larsen, 'Llygad yr Haul,' Penisarwaen. Ffôn : Llanberis 533.*
*Anfonwch newyddion Bethel i Geraint Elis, 'Sycharth,' Bethel. Ffôn : Y Felinheli 726.*
*Anfonwch newyddion Deiniolen, Dinorwig, Fachwen a Brynrefail a Chlwt y Bont i Robert Williams, 4 Tai Caradog, Deiniolen.*

**RHIFYN NESAF**
**Rhaid i newyddion, erthyglau, ac yn y blaen, fod yn llaw'r Golygydd erbyn MAWRTH 21ain.**

# BETHEL

## CLWB Y MAMAU

Y Swyddogion ar gyfer y tymor nesaf fydd yn dechrau ar eu gwaith fis Medi fydd : Llywydd : Mrs. Linda Edwards, Tan y Cae. Is-lywydd : Mrs. Dorothy Roberts, 3 Eryri. Ysgrifennydd : Mrs. Elaine Simms, Tan y Cae. Trysoryddion : Mrs. Ceinwen Williams, Bryn Pistyll a Mrs. Lynwen Morris, Perthi, Rhos.

## YR URDD

Yn ystod y mis cafwyd dwy noson o ffilmiau — ffilmiau ar atal troseddau — a noson o gartwnau gan Mr. Brian Williams. Mae casglu brwd ar gyfer Ffair yr Urdd sydd i'w chynnal yn y Neuadd nos Wener, Mawrth 26ain.

## PLAID CYMRU

Cafwyd noson ddifyr o ymryson yng nghwmni aelodau o Gangen Llanberis nos Fercher, Chwefror 18. Yng nghyfarfod nesaf y gangen, nos Fercher, Mawrth 17, bydd Noson Lawen yng nghwmni Parti o Lanberis.

## DYMUNIADAU

Dymuniad pawb yw am adferiad buan i'r holl bentrefwyr sydd yn wael gartref neu yn yr ysbyty.

## CYDYMDEIMLAD

Mae'n cydymdeimlad llwyraf â phriod a theulu'r diweddar Mr. John Owen Williams, Bro Dawel, Rhoslan, yn eu profedigaeth.

## MERCHED Y WAWR

Cafwyd darlith ddiddorol ar y testun 'Dawn Dweud' gan Eirug Wyn, y Waunfawr. Bydd y cinio Gŵyl Ddewi ym Mhlas Tan Dinas nos Fercher, Mawrth 10fed.

## CLWB Y RHOS

Cafwyd cwis ac arddangosfa o sleidiau gan Mr. Merfyn Hughes, Waun Deg, yng nghyfarfod mis Chwefror. Diolchwyd i Mr. Hughes gan Mr. Ieuan Williams. Croesawyd Mr. Gwynfor Ellis, Stad Eryri, yn aelod newydd. Bydd y cyfarfod nesaf yn yr ysgol nos Lun, Mawrth 8fed, dan ofal J. E. Thomas.

## Y GYMDEITHAS LENYDDOL

Mae darparu brwd ar y gweill i drefnu Swper Gŵyl Ddewi i ddiweddu'r tymor yn Festri'r Cysegr nos Iau nesaf, Mawrth 4ydd. Y llywydd fydd y Parch. Geraint Wyn Edwards, a'r gŵr gwadd fydd y Parch. Deiniol Wyn Edwards, Llanllechid. Bydd adloniant gan ddoniau lleol ac estynnir gwahoddiad cynnes i bawb.

## O FETHEL I DWRCI

Dydd Gwener nesaf bydd Mrs. Ronwen Corey ac Elaine Ann, merch a wyres Mr. a Mrs. Ifor Jones, Awel y Grug, yn gadael Maes awyr Heathrow i ymuno â'i phriod T.S.G.H. Robert Corey sydd yn gwasanaethu gyda Lluoedd Arfog yr Unol Daleithiau yn Adana, Twrci.

### Tyndra rhwng Twrci a'r U.D.

Pan symudodd Robert i Dwrci tua chwe mis yn ôl 'roedd yr ansicrwydd yn y berthynas rhwng U.D.A. a Thwrci yn golygu na chai'r teuluoedd fynd gyda'r milwyr yno, ond erbyn hyn mae pethau wedi gwella digon i ail uno'r teuluoedd.

Tra'n aros ym Methel, bu Elaine yn ddisgybl yn yr Ysgol Gynradd lle gwnaeth lawer o ffrindiau ac ennill tystysgrifau am nofio.

## SEFYDLIAD Y MERCHED


Nos Iau, Chwefror 19, cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Mr. Cledwyn Jones, Bangor, un o Driawd y Coleg gynt, ar Gerddoriaeth a chanu crefyddol. Caed adroddiad o gyfarfod blynyddol Cylch Caernarfon a gynhaliwyd yn Ysgol Syr Hugh Owen

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Shirley Jones, 4 Bro Rhos, ar gyrraedd ei 18ed pen blwydd yn ystod y mis.

AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ................

Eric Morris



Arvonia Coaches
LLANRUG
FFÔN WAUNFAWR 254

# DEINIOLEN

### Y SEINDORF ARIAN

Er garwed y tywydd bore Sadwrn, Ionawr 31ain, cymerodd y Seindorf ran yn y gweithgareddau i ddathlu can mlynedd a hanner adeiladu Pont y Borth (Pont Menai), a derbyniasant ganmoliaeth uchel ar eu perfformiad. Y pnawn Sadwrn dilynol, Chwefror 7ed, bu'r Seindorf yn blaenori myfyrwyr y Coleg drwy strydoedd Bangor yn eu rhodiad blynyddol i gasglu arian at achosion elusennol.

### SEFYDLIAD Y MERCHED

Mae Sefydliad y Merched yn estyn ei wahoddiad blynyddol Gŵyl Ddewi i oedolion y pentref i fwynhau Noson Lawen a phaned o de yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7p.m. nos Fercher, Mawrth 3ydd. Gan ei bod yn flwyddyn "Unisex" beth am i fwy o ddynion ddod? Ac os oes boneddwr, boed bensiynwr neu beidio, a garai roi eitem neu stori i helpu'r criw o ferched diwyd yn y Sefydliad sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn yn yr Eisteddfod rhwng Sefydliadau Merched ledled Cymru, ac wedi cynnal aml Noson Lawen, wel, rhoed ei enw i'r Ysgrifennydd, Mrs. Neville Williams, neu'r Llywydd, Mrs. M.A.Thomas. Croeso cynnes i bawb. Cofiwch ddod!

### EGLWYS EBENESER

Daeth oddeutu 70 o aelodau'r Eglwys i Festri Ebeneser nos Fercher, Chwefror 11 i fwynhau swper a ddarparwyd i groesawu'r gweinidog newydd a'i briod, y Parch. a Mrs. Eryl Lloyd Davies. Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs. Davies ar ran y Chwiorydd gan Miss Maria Williams, a lleisiwyd gair o groeso gan Mrs. E. Williams, Tŷ Capel. Cafwyd gair pellach o groeso gan y tri blaenor newydd, y brodyr Ernest Jones, Gwyn Parry a Neville Williams. Ategwyd eu cyfarchion gan Mr. Donald Jones a Mr. Richard Thomas. Wrth gydnabod y darpariaethau a'r croeso cynnes i'w briod ac yntau, edrychodd Mr. Davies ymlaen am gyfnod o gydweithio hapus gydag aelodau Ebeneser.

### MERCHED Y WAWR

Nos Lun, Chwefror 9, cyfarfu y gangen leol o dan lywyddiaeth Miss Priscie Roberts. Croesawodd y Llywydd y wraig wadd, Mrs. Menna Williams o'r Waunfawr, a chafwyd noson ddifyr yn gwrando ar Mrs. Williams yn trafod Alawon Gwerin, Hen Garolau ac Emynau, gyda'r aelodau'n uno i ganu nifer o hen alawon. Talwyd diolch i Mrs. Williams gan Mrs. Dilys Hughes. Rhoddwyd y te gan Mrs. Beti Hughes, Mrs. Dilys Hughes, Mrs. G. Lewis a Mrs. Beryl Hughes ac enillwyd y raffl gan Miss Eleanor Jones. *Bwriedir cael cinio Gŵyl Ddewi yng Nglantraeth, Bodorgan, ar nos Wener, Mawrth 12, a gofynnir i'r aelodau sydd am ymuno yn y wledd i gyflwyno eu henwau rhag blaen i'r Ysgrifennydd neu'r Trysorydd.*

### CANGEN PLAID LAFUR

Nos Iau, Chwefror 4, cynhaliwyd Gyrfa Chwist lwyddiannus yn Ysgol Gwaun Gynfi wedi ei threfnu gan Gangen leol y Blaid Lafur. Calonogwyd y trefnyddion o weld y nifer luosog o ieuenctid y pentref a oedd yn bresennol er gwaethed y tywydd. Yr enillwyr oedd : MERCHED - 1af. Mrs. G. Pleming. 2ail. Mrs. C. Thomas. DYNION - 1af. Mr. W.O.Williams. 2ail. Mr. R. Rowlands. BWBI - MERCHED - Mrs. E. Hughes. DYNION - Mr. L. Lambert. Enillwyd gwobrwyon raffl gan Mr. E. Phillips, Caernarfon, Mr. E. Parry, Glasinfryn, Mr. L. Lambert a Mrs R. Evans, Deiniolen. Cynhelir Gyrfa Chwist arall gan y blaid yn Ysgol Gwaun Gynfi ar nos Fercher, Mawrth 10.

### GIRL GUIDES

Enillwyd bathodyn arbennig gan bedair ar bymtheg o ferched y gangen leol i arwyddo eu llwyddiant mewn arholiad ar Gymorth Parod.

Pnawn Sul, Chwefror 22ain, roedd cynrychiolaeth o'r 'Guides' a'r 'Brownies' yn cymryd rhan mewn gwasanaeth arbennig yn y Gadeirlan ym Mangor. Teitl y gwasanaeth oedd 'Diwrnod Meddwl.'

Gwahoddwyd Mr. John Ogwen a Mrs. Maureen Rhys, ei briod, i agor Noson Goffi yn Ysgol Gwaun Gynfi am saith o'r gloch nos Fawrth, Mawrth 16eg. Disgwylir cefnogaeth frwd y pentrefwyr er chwyddo'r elw at y mudiad dyrchafol hwn.

### CLWB YR OEDOLION

Cynhaliwyd ail gyfarfod y Clwb am 1976 ar Chwefror 10 fed o dan lywyddiaeth Mrs. C. Marren, Plas Eryr. Y gwestwragedd te oedd Mrs. M. Roberts, Mrs. K. Griffith, Dinorwig, Mrs. M. Thomas, 7 Tai'r Faenol a Mrs. E. Davies, Tai Gwyrfai. Estynnwyd croeso cynnes i nifer o'r aelodau oedd wedi methu bod yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf, a dymunwyd adferiad buan i eraill oedd yn dal mewn anhwylder. Diolchodd y Llywydd i Mrs. Pare, Mrs. Andrews a Mrs. E. Davies am eu rhoddion at y raffl.




Eifiona Williams, Gareth Owen, Barry Wyn Williams ac Ian Peter Williams a fu'n cynrychioli Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, yng nghystadleuaeth 'Stesion Cant a Mil' ar Deledu Harlech, dydd Mercher, Chwefror 17, 1976.

### PLAID CYMRU

Ddiwedd Ionawr cafwyd noson ddifyr yng nghwmni rhai o aelodau Cangen Llanrug. Trefnwyd cwis ar Gymru gan y Parch. John Owen, Llanberis, a chafwyd tîm o'r ddwy gangen i ateb. Yr holwr oedd Mr. Gwyn Parry, a thîm Deiniolen a orfu. *Cynhelir cinio Gŵyl Ddewi'r Gangen yng Ngwesty Plas Gwyn, Pentrefelin, Cricieth, nos Sadwrn, Chwefror 28ain. Edrychir ymlaen am noson ddifyr yng nghwmni Mr. Richard Hughes (Co' Bach) a'i briod.*

### Y BROWNIES

Ar Chwefror 18fed, 1975 y sefydlwyd Cangen o'r Brownies yn y pentref dan arolygiaeth y pum gwraig ganlynol : Jean Shaw, Gloria Thomas, Yvonne Hughes, Hannah M. Roberts a Margaret Roberts. Rhif yr aelodau ar gychwyn yr ail flwyddyn yw 25, ac mae llawer eto'n disgwyl am ymaelodi. Canmolir y plant am eu ffyddlondeb a'u diwydrwydd eithriadol gydol y flwyddyn aeth heibio tra'n darparu ar gyfer arholiadau am amrywiol fathodynnau'r Mudiad.

### DECHRAU'R GÂN YW'R GEINIOG

Hoffem ddiolch o galon i'r rhai canlynol am eu cyfraniadau hael i'n cynorthwyo fel pwyllgor i wynebu costau sefydlu Eco'r Wyddfa.

*£10. Bernard Wardle (Everflex) Cyf., Caernarfon. £5. Mrs. Eluned Ellis Jones; Mr. Elfyn Thomas, Prifathro Ysgol Brynrefail, Llanrug; Mr. a Mrs. W.A.Jones, Dalar Deg, Llanrug; Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen.*

Os oes rhywun yn rhywle yn teimlo ar ei galon fel cefnogi'r fenter yma, a fyddwch cystal ag anfon eich cyfraniadau i'r Golygydd, Gwên-y-Wawr, Glanffynnon, Llanrug.


OS AM DDILLAD FFASIYNOL AM BRIS RHESYMOL

galwch gyda

ROSALIND

32 Stryd Fawr LLANBERIS

FFÔN 459



STORFA

Mace

S.&E. Jones

Llanrug

FFÔN: Caernarfon 2790

BLODAU A FFRWYTHAU YW EIN HARBENIGRWYDD



S. JONES

CYFANWERTHWR FFRWYTHAU

*(WHOLESALE FRUITERER)*

Y STORFA LLANRUG

FFÔN CAERNARFON 2790

# O SENEDDAU'R FRO

**Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru yn datgan y dylid derbyn awgrymiadau Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen yn union fel y cyflwynwyd hwy i'w sylw. Golyga hyn, os derbynir yr argymhellion yn derfynol, y bydd holl broject Dinorwig o fewn i ffiniau'r plwyf gan gynnwys Llyn Marchlyn Mawr, sydd ar hyn o bryd ym mhlwyf Llandegai. Deëllir fod Cyngor Sir Gwynedd yn cefnogi yr argymhellion hyn hefyd.**

Deëllir fodd bynnag fod tipyn o frwydr yn mynd ymlaen ynglŷn ag argymhellion y Comisiwn ym mhlwyfi Llanberis a Llanrug. Asgwrn y gynnen yw y darn tir sydd i'r dwyrain o Gwm-y-Glo a ffinir gan linell a dynnir tua'r de o Benllyn i'r gorllewin o Ben-y-bwlch. Awgryma'r Comisiwn y dylai'r tir hwn fod o fewn i ffiniau Llanberis, ond nid yw Cyngor Llanrug yn cytuno.

Is-Gadeirydd newydd Cyngor Llanberis yw Mr. W.A.Jones (Lal) a etholwyd i olynu y diweddar Mr. O.E.Jones.

Mae problem golau cyhoeddus yn poeni'r tri Chyngor. Pryder Cyngor Llanberis yw diffyg golau ar y cyffordd rhwng Stryd y Farchnad a'r Ffordd Osgoi. Addawodd Cyngor Sir Gwynedd osod golau yno pan gwblheir cynllun goleuo pentref Llanberis.

Mae trigolion Deiniolen hefyd yn dal i ddisgwyl am oleuadau sodiwm hyd y Stryd Fawr. Cafwyd addewid gan yr Awdurdod Trydan y byddai'r gwaith hwn wedi ei gwblhau cyn diwedd Ionawr eleni.

Mae safon isel golau cyhoeddus yn gyffredinol wedi peri i Gyngor Cymdeithas Llanrug dref drefnu i gyfarfod a Swyddog Goleuo'r Cyngor Sir gyda golwg ar gael cymorth.

Mae'r broblem o fancio arian yn achosi pryder i drigolion Llanrug hefyd, a phenderfynodd y Cyngor anfon at y pedwar banc i ofyn iddynt ystyried agor banc rhan amser yn y pentre. Pobl ariannog yn Llanrug!

Hysbyswyd Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen gan Brif Beiriannydd y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig eu bod yn symud ymlaen i sicrhau tir ar safle'r Bigil er mwyn codi mast teledu a roddai dderbyniad boddhaol i ardaloedd Dinorwig, Deiniolen a Llanberis.

Tynnwyd sylw at y ffaith, fodd bynnag, y gallai'r holl weithgarwch gymryd tua thair blynedd i'w gwblhau. Gresyn i'r Awdurdodau Cynllunio fod mor styfnig am fisoedd ynte!

Mae Cyngor Llanddeiniolen yn feirniadol iawn o'r ffaith i Gyngor Sir Gwynedd ganiatau i'r Bwrdd Cynhyrchu Trydan gau llwybr cyhoeddus a newid cwrs amryw o lwybrau eraill yn y plwyf heb iddynt ymgynghori yn y lle cyntaf â'r Cyngor Cymdeithas. Wrth gwrs, nid yw'r Cyngor yn anghydweld o gwbl ynglŷn â chau'r llwybr oherwydd byddai ei gadw yn agored yn beryglus tra mae'r gwaith ar yr orsaf drydan yn mynd ymlaen. Teimlad cryf y Cyngor yw y dylai Cyngor Gwynedd ymgynghori a hwy, gan roi'r holl fanylion, oblegid wedi'r cyfan, y Cyngor Cymdeithas sydd agosaf at y bobl leol. Yn wir, dyma'r unig lywodraeth leol erbyn hyn lle mae'r clercod a'r cynghorwyr yn byw o fewn gafael i'w plwyfolion. A chan fod y Bwrdd Trydan yn newid cwrs rhai llwybrau tros-dro, tybed a fyddent yn fodlon dangos rhediad newydd y llwybrau, ac anfon plan ohonynt i'w gyhoeddi yn Eco'r Wyddfa.

Fydd dim ychwanegiad yn y dreth a godir gan Gyngor Llanddeiniolen am y flwyddyn nesaf gan iddynt benderfynu codi yr un swm â'r llynedd, sef £2,800 ar gyfer y golau, a £1,400 ar g.fer y cyfrif cyffredinol.

Cafodd Cyngor Llanrug wybodaeth gan Awdurdod Cenedlaethol Datblygu Dwr Cymru nad oedd cynllun carthffosiaeth newydd i Gwm-y-Glo, a oedd i'w gynnwys yng nghynllun gwaith 1978/79, wedi derbyn cadarnhad yr Awdurdod. Fe fydd cais pellach y Cyngor yn cael ei ystyried eto gydag awgrymiadau gan Swyddog Technegol Cyngor Arfon.

Gyda llaw, wyddech chi mai yn 1894 y sefydlwyd yr hen Gyngor Plwyf fel uned o lywodraeth leol. Daeth y Cyngor Cymdeithas (a dyna'r enw swyddogol) i rym ar Ebrill 1af, 1974. Gwasanaeth cwbl wirfoddol yw cynrychioli eich ardal ar y Cyngor Cymdeithas. Ni thelir hyd yn oed gostau teithio i'r cynghorwyr.

### GWAITH AWR!

Dyma nodyn "goleuedig" i gloi. Wyddech chi y cymerodd dros fis i M.A.N.W.E.B. ddod i Ddinorwig i atgyweirio diffyg i gebl trydan ar ôl y storm ddechrau'r flwyddyn. Wedi iddynt ddod fe gymerodd awr iddynt i gwblhau'r gwaith. Sioc? – mis i wneud gwaith awr – bobol annw'l!




*"Mae hi'n sâl ishio babi."*

# NANT PERIS

### FFILMIAU

Y mae Cromlechdy yn un o fannau pwysicaf y byd ffilmiau Cymraeg y dyddiau hyn. Y mis hwn, gorffennodd Wil Aaron ffilm awr a chwarter ar weithgareddau'r Urdd. Cafwyd rhagflas o'r ffilm ar 'Y Dydd' am y tro cyntaf ar Chwefror 16. Cymerodd y ffilm flwyddyn o amser i'w pharatoi. Ar hyn o bryd y mae Wil Aaron wrthi'n paratoi'r ffilm 'Gwaed y Sêr' a thynnwyd y rhan fwyaf o'r ffilm hon o gwmpas y Nant ar ddechrau'r gaeaf. Gobeithir cael y 'premiere' yn y Nant yn ddiweddarach eleni.

### FFARWELIO

Dydd Iau, Chwefror 12, ymadawodd Mr. a Mrs. Hartley, 5, Glanrafon, i fyw i Bolton. 'Roedd Mr. Hartley yn ymwelydd â'r ardal ers 1958. Daeth yma i fyw yn 1963 ar ei ymddeoliad. Bu Mrs. Hartley yn wasanaethgar fel organyddes yn Eglwys St. Peris. Dymunwn iddynt bob bendith yn eu cartref newydd.

### WMFFRA

Un a ddaeth i fyw atom yn ddiweddar ac a ddaeth yn gyfeillgar â llawer o drigolion y Nant oedd Humphrey Roberts, Tŷ'r Ysgol. Bu farw'n sydyn ddiwedd Ionawr yn 42 oed.

CALON
(er cof am Wmffri)

Roedd Awst ei chynhesrwydd hi – yn dyner
Amdanom, ond 'leni
Gan mor oer, mor oer yw hi
Ni ŵyr Ionawr ei eni.

G.L.O.

### CAR RASIO

Ddechrau'r mis, fe fu aelodau'r Clwb Ieuenctid yng nghwmni eu harweinydd, Mr. Ken Jones, yng Nghapel Curig yn gweld casgliad moduron Mr. Owen Wyn Owen. Mae Mr. Owen bellach yn adnabyddus am ei waith yn casglu ac adnewyddu hen foduron. Yr enwocaf o'r rhain yw 'BABS', y car a dorrodd record cyflymder daear yn Ne Cymru yn y dauddegau.

### ANRHYDEDDU

Fe wnaed Mr. J.W.Ellis (Perisfab) yn Llywydd Anrhydeddus Pwyllgor Rhanbarth Arfon o Blaid Cymru. Ymaelododd â'r Blaid yn 1926, hanner can mlynedd yn ôl, pan nad oedd y blaid honno ond blwydd oed.

### GWELLA

Croeso adref i Miss N.C.Williams, Tan y Bryn, ar ôl bod am driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Mon ac Arfon. Da gennym ddeall ei bod yn gwella'n foddhaol. Brysiwch fendio, Miss Williams!

### PRIODAS

Dydd Sadwrn, Chwefror 14, unwyd mewn priodas Mr. Tom Elis Thomas, Bron Wyddfa, a Miss Ann Wyn Pritchard, Caernarfon. Gwasanaethwyd ar y briodferch gan Miss Iris Owen, a'r gwas oedd Mr. Dei Thomas, brawd y priodfab. Cafwyd y wledd briodas ym Mhlas Tan Dinas. Gwasanaethwyd yn y briodas yn Eglwys Llanbeblig gan y Canon Glyndwr Williams. Dymunwn bob bendith a hapusrwydd i'r pâr ifanc.



*Llun: Creative Photographs, Penisarwaen*

### CANMLWYDDIANT

Ddydd Sul, Chwefror 1af, cyhoeddwyd Adroddiad Capel Rehoboth. Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar ddechrau blwyddyn penblwydd y capel presennol yn 100 oed.

### TRYSORYDD

Mewn Cyfarfod Cyffredinol ym Meddgelert, dydd Sadwrn, Chwefror 14, ail-etholwyd Mr. Alwyn Elis, 8 Glanrafon, yn Drysorydd Cymdeithas Tai Gwynedd, y gymdeithas sy'n prynu, adnewyddu a gosod tai ar rent i deuluoedd Gwynedd.


**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**

FFÔN CAERNARFON 2898

COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

# LLANBERIS

## AELWYD YR URDD

Nos Wener, Chwefror 13, daeth Mr. Gwilym Hughes, Trefnydd yr Urdd yn Arfon, atom. Roedd wedi trefnu cwis a rhannwyd Yr Aelwyd yn ddau dîm, bechgyn v merched. Y merched a orfu o un marc! Llongyfarchwyd y tîm Pêl-droed a'r tîm Tenis Bwrdd ar gyrraedd y drydedd rownd yng nghystadleuthau'r Urdd. Bydd Ann Evans y Gift Shop a Mona Lewis, Cilan, yn cynrychioli'r Aelwyd mewn disco mawr a gynhelir ym Mhorthmadog nos Sadwrn, 21 Chwefror. Byddant yn ymgeisio am fod yn Frenhines yr Urdd yng Ngwynedd. Bydd y grŵp bît Cymraeg enwog, Edward H. Dafis, yn cymryd rhan yno. Pob hwyl i'r genod! Trwy gynnal Disco cyn y Nadolig a gwerthiant creision tatws a phop casglwyd £8.70 at Gronfa Ganolog yr Urdd.

## ELEANOR BUTLER

Dim ond 32 mlwydd oed oedd Eleanor pan fu farw ddechrau'r mis yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor. Athrawes Ymarfer Corff yn Ysgol Maes Garmon, Yr Wyddgrug, oedd ers deng mlynedd. Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Butler a'r teulu yn eu profedigaeth fawr ac â chyfeillion Eleanor a gollodd ffrind mor driw. Deued y dydd yn fuan y daw meddyginiaeth i'r afiechyd a ddygodd Eleanor oddi arnom.

## HUGH GRIFFITH

Dyma'r trydydd blaenor i Eglwys Gorffwysfa ei golli o fewn wyth mis, y tri o'r un genhedlaeth (yn eu pumdegau) ac yn marw o'r un clefyd. Hugh Griffith oedd yr hynaf o'r tri, ac nid oedd yntau ond 58 mlwydd oed. Bu'n flaenor am 28 o flynyddoedd. Bu'n gweithio yn Llanbedr cyn symud i'r Fali, Ynys Môn. Collodd Eglwys Gorffwysfa golofn arall. Cydymdeimlwn â'i briod a'r teulu oll yn eu colled.

## Y SEINDORF ARIAN

Nos Sul, Mawrth 7, yng Nghapel Coch am 8 o'r gloch cynhelir Cyngerdd Amrywiol dan nawdd Seindorf Arian Llanberis gyda Chôr Plant Llanberis (trwy garedigrwydd Ysgolfeistr Dolbadarn) ynghyd ag unawdau gan Miss Paula Jones (Clarinet), Miss Ruth Lennon (Ffliwt) a Mr. Edwin Evans, Deiniolen (Bariton). Arweinydd y cyfarfod fydd Y Parch. Ganon Alun Jones (Cadeirydd y Seindorf). Mynediad : 20c. Pensiynwyr a phlant : 10c.

## CYNGOR EGLWYSI

Mewn Cyfarfod Gweddi yn Ngorffwysfa ar Chwefror 17, cymerwyd rhan gan Mr. Cledwyn Parry (Preswylfa), Mrs. K. Owen (N. Padarn), Mrs. L. Davies a Mrs. M. Jones (Jeriwsalem). Y llywydd oedd Mr. Alun Roberts.

## HOGIA'R WYDDFA

Bydd Hogia'r Wyddfa gydag 87 o'u cefnogwyr o Lanberis, Arfon a Môn yn mynd i Lundain i Gyngerdd Gŵyl Ddewi yn yr Albert Hall. Cynhelir y Cyngerdd nos Sadwrn, Chwefror 28. Dyma'r trydydd tro iddynt fod yno yn cymryd rhan mewn Cyngerdd Gŵyl Ddewi.

## CLWB IEUENCTID LLANBERIS

Cynhelir y Clwb yn Neuadd yr Eglwys ar nos Wener rhwng 7.00 a 9.30 o dan ofal yr arweinydd, John G.Williams, Eirianfa, Llanberis. Mae'n agored i bobl ifanc rhwng 14 a 25 oed, ac ers dechrau'r gaeaf 'rydym wedi cynnal rhaglen amrywiol, yn cynnwys noson o ddarluniau 'slides' ac ar y 5ed o Fawrth gobeithir dangos y ffilm fynydda enwog "Annapurna South Face". Mae'r aelodau wedi cymryd rhan mewn llawer o gystadleuthau – dartiau, gwyddbwyll, tenis bwrdd ac hefyd pêldroed pump-bob-ochr. Yn ystod y mis nesaf gobeithir mynd â grŵp i ymweld â safle adeiladu Gorsaf Gynhyrchu Dinorwig. Gan mai ar fore Sadwrn y bydd hyn ac na chaniateir mwy nag ugain ar y daith oherwydd diogelwch, byddaf yn falch o gael enwau y rhai sydd â diddordeb cyn gynted a phosibl.

## CARNIFAL

GORA' GAMP
GEMAU GIAMOCS
"IT'S A KNOCKOUT"

Mae pwyllgor Carnifal Llanberis yn bwriadu trefnu noson o adloniant ar linellau y rhaglen BBC boblogaidd "It's a Knockout". Bydd y pwyllgor yn cysylltu ag aelodau pwyllgorau carnifal y pentrefi eraill sydd yng ngylch y papur bro. Bydd mwy o fanylion yn y rhifyn nesaf o'r papur, felly cofiwch wylio a darllen. Hoffai'r pwyllgor hefyd dderbyn unrhyw awgrym am deitl i'r 'fenter', rhywbeth fel y rhestr uchod. Dylid anfon rhain at y golygydd.

## EGLWYS ST. PADARN

Dilyn y groes i'r diwedd yng Nghôr yr Eglwys fu hanes John Owen Roberts, 6 Maes Padarn. Ni fu ei ffyddlonach, ac y mae bwlch mawr ar ei ôl. Meddai ar lais swynol a byddai'n barod iawn i roi difyrrwch i eraill gyda'i ganeuon adnabyddus. Un lle y byddai bob amser yn sicr o fod ar y rhaglen oedd yn y wledd flynyddol yng nghlwb y Pensiynwyr. Rhoddwyd ei weddillion marwol i orffwys yn Erw Duw, Nant Peris, ddydd Sadwrn, Chwefror 7. Hedd i'w lwch.

DYDD MERCHER Y LLUDW –MAWRTH 3

Hwn yw'r dydd cyntaf o dymor y Garawys – tymor o ddeugain niwrnod i baratoi ar gyfer Gŵyl y Pasg. Tymor edifeiriol yw hwn ac i ddod â ni at ein synhwyrau megis yn yr oes faterol hon da o beth yw defnyddio'r moddion y mae'r Hen Fam yn baratoi ar gyfer ei phlant. Bydd gwasanaethau Ardd-odi Ludw yn Eglwys St. Padarn 9.30 a.m. + 7p.m., ac yn Eglwys St. Peris, Nant Peris 10.30 a.m. Yn y gwasanaeth hwn yr arferiad yw i'r ffyddloniaid ddod at yr Allor a rhoddir croes o Ludw ar dalcen bob un a dywedir y geiriau o Lyfr Genesis, "Cofia mai llwch ydwyt ac i'r llwch y dychweli." Neges iach i ddod â ni at ein synhwyrau, ac i'n harwain i roi gwell gwerth ar ein bywyd. Disgwylir gweld rhai yn ail-afael yn eu dyletswyddau Cristnogol yn ystod y Garawys.

## CLWB METHEDIG ERYRI

Mae'n cyfarfod yn wythnosol am 2 o'r gloch bob pnawn Llun yn Y Ganolfan. Y Llywydd yw Metron A.M.Jones, Ardwyn. Y Cadeirydd –Mr. Edward O. Thomas, a'r Trysorydd yw Mrs. M.E.Jones, 5 Rhes Fictoria. Y Pwyllgor : Mr. Iorwerth Jones, Mrs. Helen Morris Oakfield, Mrs. Evans, Y Gift Shop, Mrs. J.L.Jones a Mr. E.R. Williams, Rallt. Y mae 37 o aelodau yn perthyn i'r Clwb. Ceir gweithgarwch amrywiol megis dysgu gwaith llaw, gofalu am y methedig yn eu cartrefi, trefnu cinio Nadolig a gwibdaith yn yr haf.

## CYMDEITHAS LENYDDOL CAPEL COCH, GORFFWYSFA a PHRESWYLFA

Nos Lun, Chwefror 2, cafwyd darlith gan Mr. Ifor Bowen Griffith. "Atgofion" oedd ei bwnc. Y Cadeirydd oedd Mr. Cledwyn Parry, a thalwyd diolch gan Mr. Hugh R.Jones. Nos Lun, Chwefror 16, cafwyd noson "Hawl i Holi." Aelodau'r panel oedd y Meistri Gwynfor Williams a William Jones a Mrs. Dilys Baylis, gyda'r Parch. John Owen yn cadeirio. Talwyd diolch gan Mr. John Davies. Y cyfarfod nesaf a'r olaf am y tymor fydd Cinio Gŵyl Ddewi yn yr Erw Fair am 7.30, nos Lun, Mawrth 8.




*"Gollwng nhraed i ne mi hitia'i di hefo'r gaib ma."*

## AR WERTH

**BWJIS** Amryw o liwiau, rhai i'w harddangos, a rhai 6 wythnos oed i'r tŷ. *Roberts, Bod Gwynedd, Cwm-y-Glo.*

**CÔT MOHAIR** Seis 10, fel newydd. £8. *Mrs. Hughes, c/o Ysgol Dolbadarn, Llanberis.*

**BABY BOUNCER** Cyflwr da. £2. *Ffôn : Caernarfon 3719.*

**"HOT-PLATE'** Newydd sbon. £25. *Ffôn : Llanberis 443.*

**SUPER 8 PROJECTOR a SGRIN** £10. *Morris, Oakfield, Ffordd Capel Coch, Llanberis.*

**GWLÂN** – i beiriant gwau. Dewis da o liwiau. *Llanberis 443.*


HYSBYSEBWCH YN ECO'R WYDDFA

DYDIO'N COSTIO DIM!

Anfonwch at
Siân Thomas,
Foelas,
Stryd Newton,
Llanberis.
(Ffôn : Llanberis 220)


## YN EISIAU

Mangl law fechan, neu fangl bwrdd, mewn cyflwr da. *Hughes, 9 Ffordd Goodman, Llanberis.*

Oes gennych chi ddillad hen, hen ffasiwn? Apelir yn daer amdanynt gan Gwmni Drama Llanberis. Cysylltwch â *Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis.*

Radio Car mewn cyflwr da. *Ffôn : Llanberis 220.*


E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS DEINIOLEN

FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS!

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN, PENISARWAUN, LLANRUG a BETHEL




## EISTEDDFOD GADEIRIOL DINORWIG, 1906 - 7

Ni wyddys fawr ddim o hanes yr Eisteddfod hon. Yn ôl nodyn a gafwyd yn dilyn apêl yn *Y Cymro* flynyddoedd yn ôl, fe'i cynhaliwyd yn Llys Dinorwig, ger Brynrefail dan symbyliad Alafon, Deiniolfryn, Y Parch. James Salt, Glan Alaw, Carneddog ac amryw eraill. 'Roedd y gadair yn eiddo i'r enwog Farget Ach Ifan o Ben y Llyn, ger Llyn Dinorwig, yn ôl yr hanes. John Michael Pritchard, gweinidog yn America, oedd y buddugol ar y delyneg, a Dewi Orwig a orfu gyda'r englyn.

Dywed traddodiad i Iolo Morgannwg gynnal gorsedd ar Fryn Dinorwig yn 1799, ac urddo Dafydd Ddu a Gutyn Peris yn feirdd Cadair Dinorwig. Ai dyma'r 'fam-eisteddfod'? Tybed a oes gan rywun sylwadau pellach ar y chwedl hon, neu sydd yn anghytuno â'r hanes, efallai?

Mae'r llun hwn, ynghyd â'r nodyn esboniadol, wedi cael eu diogelu yng nghasgliadau Gwasanaeth Archifau Gwynedd. Byddai'r Gwasanaeth yn hynod o ddiolchgar am unrhyw wybodaeth amdano neu am unrhyw luniau o'r fath.




### AR DRAWS

1. Cadw yn erbyn ewyllys (7)
5. Ar ben!! (5)
8. Ni raid rhwyfo rhain (5.6)
9. Cyfoeth mewn dihareb addysgol. (5)
10. Awgrym (6)
12. Fe all fod yn un pan ar ei liniau. (6)
14. Mae hwn yn mentro'i fywyd dros ei gyd-ddyn (6).
17. Offeryn pwyso (6)
18. Planhigyn sy'n dringo (5)
20. Diod faethlon o anifail (4.7)
22. Siriol (5)
23. Lluosog (7)

### I LAWR

1. Gwelir digon o'r rhain yn Aberdaron. (8)
2. Ymneilltuo (7)
3. Gellir yfed hwn yn dda (5)
4. Gohiriad (6)
5. Cwyno'n ddibaid (7)
6. Enillodd hwn ddim – ond! (3)
7. ...... a throsi (4)
11. Dychrynllyd (8)
13. Twyllir ieir gyda hwn ambell dro (2.5)
15. 'Chollodd hwn ddim (7)
16. Gwna rhai pobl hyn gyda'u hachau (6)
18. Diwedd (5)
19. Bwgan (4)
21. Gwneud hwn yw pwrpas pob gweithgarwch bron (3)

Cyfrir y llythrennau canlynol fel un llythyren: ff,ch,ph,ng,ll,th,dd,rh.

**Gwobr o £1** i'r ateb cywir cyntaf adynnir ar ôl i'r holl gynigion ddod i law. **Dyddiad cau: Mawrth 24.** Anfoner y cynigion i *Myrddin Owen, 32, Stryd Fawr, Llanberis.*

# Llannerch Y Llenor



gan SELWYN GRIFFITH

**Gair i'ch croesawu sy' gen i heddiw, ac i estyn gwahoddiad cynnes i chwi i droi i mewn i'r llannerch. Yn wir, 'rwy'n apelio arnoch i wneud hynny. Mae llwyddiant y "llannerch" yn dibynnu'n llwyr ar eich cyfraniadau chwi. Pam "Llannerch y Llenor" meddwch? Wel, i fod yn onest, mi fûm i'n pendroni dipyn ynglŷn â pha enw a roddwn i golofn ar gyfer y rhai sydd â diddordeb yn y 'pethe.'**

Wedi dod i Ysgol Dolbadarn, Llanberis, yn naturiol iawn, fe ddarllenais unwaith eto gyfrolau T. Rowland Hughes a chael mwynhad mawr hefo 'William Jones, O Law i Law a'r Chwalfa, ac wrth ddarllen 'Y Chwalfa' y daeth y syniad i mi o fedyddio'r golofn hon yn "Llannerch y Llenor" (Trowch i dudalen 95 o'r Chwalfa)

Tuedd "Y Golofn Farddol", neu "Awen Bro" neu "Byd y Beirdd" fyddai cadw allan y rhai hynny y mae'n well ganddynt ysgrifennu rhyddiaith. Felly dyma fi yn hyderus yn mentro agor llidiart y llannerch drwy estyn gwahoddiad cynnes i feirdd a llenorion y fro, ac i bawb sy'n caru ymhel â'r 'pethe.' Da chi, trowch i mewn, ac anfonwch ambell bill, pwt o gân, stori neu lythyr, eich barn ar lyfrau arbennig, hen ddywediadau bachog, ystyr enwau lleol, neu rywbeth arall diddorol y carech ei gyflwyno. Bydd croeso cynnes i chwi, ac fel y dywedais, mae llwyddiant y "llannerch" yn dibynnu'n gyfangwbl arnoch chi.

### SIART FAWR

Ar fur ystafell dosbarth dau Ysgol Dolbadarn, Llanberis, mae siart fawr o Sir Gaernarfon yn dangos enwogion llen o wahanol ardaloedd y sir. Daw y mwyafrif o enwogion dalgylch Eco'r Wyddfa o ardal Llanberis – Bardd Du Eryri, Gwilym Padarn, Gutyn Padarn, Dewi Arfon ac wrth gwrs, T. Rowland Hughes, i enwi dim ond ychydig ohonynt. Cofiwn hefyd am W.J.Gruffydd o Fethel, yr enwocaf yn ddiamau o'r gwyr llên a aned yn y cylch hwn.

Mae yna hefyd amryw eraill y gellir eu cysylltu â bro Eco'r Wyddfa a gyfrannodd yn helaeth at gyfoeth llenyddiaeth ein cenedl. Rhai a aned yn ein plith, eraill a fu yma 'tros dro' megis. Daw i'r cof, – Herman, Dilys Cadwaladr, R. Williams Parry a Dyfnallt, un o gyn-archdderwyddion Cymru, a fu am gyfnod yn weinidog gyda'r Annibynwyr yn Neiniolen. Wrth gwrs, mae amryw o rai eraill, a diau y byddwch yn barod iawn i f'atgoffa o hynny, ac i anfon ysgrifau diddorol am rai ohonynt.

Ga i wneud apêl arbennig atoch chi, ddisgyblion Ysgol Brynrefail. Cefais y fraint ychydig flynyddoedd yn ôl o feirniadu cyfansoddiadau llenyddol Eisteddfod flynyddol yr Ysgol, a chefais fwynhad mawr wrth gloriannu y toreth ysgrifau a ffrwyth eich awen. Rwy'n siwr fod yr ysfa i gyfansoddi yn parhau yna. Da chi, trowch i mewn i'r llannerch. Peidiwch â bod yn swil.

### CYSTADLEUAETH

Beth am gystadleuaeth fach i gloi? Mae'r hen linell goll draddodiadol yn hynod o boblogaidd o hyd. Felly beth am roi cynnig arni? Anfonwch eich llinellau heb oedi i "Llannerch y Llenor", 'Crud yr Awen', Bethel. Bydd gwobr i'r llinell orau, felly rhowch ffugenw. Gan fod costau postio mor afresymol o uchel, mae croeso i chi ddefnyddio postmyn answyddogol, dim ond i'r llinellau gyrraedd mewn pryd. Dyma'r pennill i'w gloi :

**D'wedodd Siân yn swil wrth Sioni**
**"Blwyddyn naid yw hon eleni"**
**Meddai Sioni wrthi'n swta,**

.....................................................

Os gwn i be' ddwedodd yr hen gr'adur wrthi? Meddyliwch dros y peth a chofiwch droi i mewn. Hwyl i chi.

Selwyn.

••


MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans



# CWMWL AR Y CWLWM

**(Noson yng nghwmni gŵr a gwraig fu'n gweld Cwmni Drama Llanberis yn perfformio Dedwydd Briodas – J.B.Priestley).**

*"Waeth gen i be' ddeudi di, dydwi ddim am ddwad efo chdi i Llanber i weld yr hen ddrama 'na. Mae hi'n rhy oer i ddechra' a............"*

*"Cau dy hen geg a dos i roi trôns glân, cyn i mi dy lusgo di gerfydd dy ben moel i'r lle. Rydwi wedi risyrfio dwy sêt reit yn y ffrynt – felly sgin ti ddim dewis."*

*"Wyddost ti be', Jane, pan fyddi di'n hefru fel hyn mi fydda'i'n meddwl be' ddaeth dros y 'mhen i chwartar canrif yn ôl pan ofynnis iti 'mhriodi i."*

*"Mae'n rhy hwyr iti sôn am betha felna rwan – efo fi wyt ti ac efo fi fyddi di bellach. Pwy arall gymrith di? Hel dy draed yn sydyn ne' mi fyddwn ni'n hwyr."*

*****************

### DEWIS DA

**Mae dewis drama i gwmni lleol yn bwysicach na dim, a phrawf o ddoethineb y dewis o "Dedwydd Briodas" gan Gwmni Llanberis oedd ymateb ardderchog y gynulleidfa.**

Y stori yn fyr yw fod tri o ddynion tra phwysig y gymdeithas, gyda'u gwragedd, yn trefnu dathlu eu priodas arian ( y tri phâr wedi priodi yr un bore) ac yn galw y dyn papur newydd a'r tynnwr lluniau i gofnodi'r achlysur. Ond yn ystod y ddrama daw y parau priod i wybod nad oedd y Gweinidog a'u priododd yn gyflawn weinidog ac o ganlyniad, 'doedden nhw ddim wedi priodi go iawn – ond wedi byw hefo'i gilydd am bum mlynedd ar hugain.

Mae'r ddrama'n troi o gwmpas y sefyllfa yma – y cyplau'n ofni i'r pentrefwyr ddod i wybod am eu sefyllfa, a hwythau'n bobl bwysig. Mae dyn y papur newydd a'r tynnwr lluniau yn ychwanegu at y stomp, ac mae ymddangosiad merch ifanc o dras amheus sy'n 'nabod un o'r gwŷr priod yn dda yn creu sefyllfa ddoniol, bron yn ffarsical.

Mae'r ddrama'n fwy na chomedi arwynebol oherwydd am ychydig, mae'r cyplau'n meddwl eu bod yn rhydd ac ambell ŵr yn codi ei olygon at wragedd eraill, ac ambell wraig yn ffansio trowsus arall, sy'n gwneud i rywun feddwl beth fyddai'n digwydd go iawn mewn sefyllfa o'r fath.

### ACTIO ARDDERCHOG

Fel mae'n digwydd gyda chwmni lleol, roedd yr actio'n amrywio'n ddirfawr o fod yn ardderchog i fod yn weddol. Annheg fyddai rhoi gormod o sylw i berfformiadau unigol oherwydd fel cyfanwaith roedd yn noson ganmoladwy dros ben, ond fe fyddai wedi bod gymaint â hynny'n well pebai un neu ddau o'r actorion wedi rhoi mwy o ysbryd i'r cymeriadau. Byddai hynny'n haws ar ôl dysgu'r geiriau'n well. Cafwyd perfformiadau da gan y merched i gyd a Clara Stephens (Katherine Owen) yn ddigon i wneud i ddyn aros yn hen lanc, a Herbert ei gŵr (Iwan Williams) yn bonsyn go iawn ac yn bortread ardderchog o'r gŵr dan fawd ei wraig (mae 'na gymaint ohonom). Roedd yr Henadur J. Humphreys (Myrddin Owen) yn ein hatgoffa o'r dynion pwysig sydd i'w cael ym mhobman a Harry Owens (Arwel Jones) y tynnwr lluniau yn ei elfen fel meddwyn.

Noson arbennig o hwyliog, a gynhyrchwyd gan John Owen, a syniad da oedd cael y telynor medrus, Cen Morris i berfformio rhwng golygfeydd.

Ceir cyfle i weld y ddrama eto mewn nifer o ganolfannau, ac fe ddylech i gyd wneud ymdrech i fynd i'w gweld.

************

*"Wel, wyt ti'n difaru dy fod ti wedi mynd? Roeddat ti'n chwerthin fel dyn o'i go – a phwy wyt ti'n ffonio'r adeg yma o'r nos?"*

*"Ffonio'r gweinidog 'na ddaru'n priodi ni – rhag ofn!"*

## £1000

**GWERTHODD aelodau o Bwyllgor Carnifal Llanberis nifer helaeth iawn o dicedi raffl i lawer iawn o drigolion yr ardal yn ystod yr Hydref. Arbrawf oedd hwn mewn cysylltiad â Chlwb Criced Morgannwg, a bu'n fenter hynod o lwyddiannus i'r Carnifal. Tynnwyd y raffl yn y Clwb Chwaraeon, Abertawe ar Ionawr 22ain.**


Roedd dwy wobr o £1000, dwy set deledu lliw a dwy wobr o £100. I Glwb Rygbi Pencoed yr aeth un wobr o fil, ac i ferch o Hwlffordd Dyfed yr aeth y llall. Chafodd neb o'r ardal unrhyw un o'r prif wobrwyon, ond cafodd y canlynol ran o'r mân wobrwyon.

### Enillwyr Bond Premiwn

Alan Lewis, 115 Cae Mur, Caernarfon. Rhif 202090. J.E.McGrath, 206, Penrhyn Ave., Bangor. Rhif 202427. G.W.Roberts, Ysgubor, Fachwen. Rhif 202527. Emlyn Jones, Cae Spencer, Bontnewydd. Rhif 200590. Aneurin Jones, Gwesty Dolbadarn, Llanberis. Rhif 201138. D. Owen, 22 Bro Rhyddallt, Llanrug. Rhif 202232. M. Griffith, Awelon, Nant Peris. Rhif 202318. Belgie, 46, Dôl Elidir, Llanberis. Rhif 203719.

### Enillwyr Tei Clwb Morgannwg

R.I.Humphreys, 19 Dôl Afon, Cwm-y-Glo. Rhif 201115. Elwyn Hughes, Ceunant, Nant Peris. Rhif 200327.



*Y Cynhyrchydd: John Owen.*

## Merch Leol yn Llywydd



**Urddwyd Miss Phyllis M. Ellis, Rhosfair, Penisarwaen yn Llywydd Cymdeithas Sir Gwynedd o Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis dydd Sadwrn, Ionawr 31.**

Merch ydyw i'r diweddar Mr. a Mrs. W.T.Ellis, gynt o'r Coch Hir, Penisarwaen. Addysgwyd hi yn Ysgol Tanycoed, Penisarwaen; Ysgol Brynrefail a Choleg y Santes Fair, Bangor. Ar hyn o bryd mae'n Brifathrawes Ysgol y Babanod Maesincla, Caernarfon.

Yn ei haraith agoriadol i'r Gynhadledd diolchodd Miss Ellis i'w rhagflaenydd, Mr. Aled Roberts, Prifathro Bontnewydd, am ei wasanaeth fel Llywydd cyntaf Cymdeithas Gwynedd o'r Undeb. Tynnodd sylw dros gant o gynrychiolwyr yr Undeb yng Ngwynedd at rai o amcanion yr Undeb. Hoffai weld holl athrawon Cymru mewn un undeb proffesyddol ynghyd â chyfundrefn addysg annibynnol i Gymru.

### MAN ADDAS

I gloi, cyfeiriodd at y ffaith fod y Gynhadledd wedi cyfarfod mewn man addas iawn, "nepell o Graig yr Undeb, lle cyfarfyddai aelodau cynnar Undeb y Chwarelwyr."

Gobeithio y caiff flwyddyn lwyddiannus yn ei swydd ac y gwêl rai o argymhellion ei Hundeb yn cael eu gwireddu.

# LLANRUG



*Gwyndaf Jones, Clerc Cyngor Cymuned Llanrug, yn cael cymorth gan nifer o blant yr ardal i glirio sbwriel o Bwll Moelyn.*

## CYNGOR ARFON

Safle C.I.L. ym MRYN MOELYN Dywedodd y Cynghorydd Charles Wyn Jones wrth Eco'r Wyddfa fod y trafodaethau rhwng Cyngor Arfon a C.I.L. wedi eu cwblhau a bod y ddwy ochr wedi cytuno ar y graddfau contract. Er hyn, dywedodd y bydd angen i'r Swyddfa Gymreig gymeradwyo'r cytundebau. Bydd 44 o dai yn cael eu hadeiladu ym Mryn Moelyn – 34 o dai tair llofft a 10 bynglo dwy lofft ar gyfer yr henoed. Gobeithir dechrau ar y gwaith o adeiladu yn y flwyddyn ariannol 1976/77.

## SAFLE TAI HENOED

Mae pwyllgor tai Cyngor Arfon ar ôl trafodaethau maith wedi cytuno i bwrcasu dau safle ychwanegol yn Llanrug ar gyfer adeiladu grŵp o dai i'r henoed. Dywedodd y Cynghorydd Charles Jones y bydd y cynllun yma yn cynnwys oddeutu ugain bynglo ar y safle mwyaf a rhyw saith neu wyth ar y safle llai. Gobeithir hefyd cael gwasanaeth Warden ar gyfer y datblygiad. Mae'r ddau safle'n agos iawn i sgwâr Llanrug ac yn hwylus iawn ar gyfer gwasanaethau fel y Swyddfa Bost, siopau, bysiau, ac ati.

## CYFLEUSTERAU CYHOEDDUS

Mae Cyngor Arfon hefyd wedi cytuno mewn egwyddor i adeiladu cyfleusterau cyhoeddus yn Llanrug.

## EGLWYS M.C. Pontrhythallt

Yn yr oedfa fore Sul diwethaf, Chwefror 15ed, cyfeiriodd y Gweinidog at y ffaith fod Mrs. Enid Whiteside Thomas, Dolwar, wedi cwblhau cyfnod o 41 mlynedd o wasanaeth gyda chaniadaeth y cysegr yn yr eglwys. Llongyfarchwyd hi a diolchwyd yn gynnes iddi am ei gwasanaeth.

## Y BAND

Mewn cystadleuaeth i fandiau yn Bolton, sef yr "Annual Championships and the Watney Mann Championship", ar y Sul, Chwefror 15ed, daeth Band Arian Llanrug yn bumed allan o 19 o fandiau. Yr oedd yn bleser mawr gan aelodau'r Band weld hen ffrind iddynt, Derek Jones, yn arwain Band Haigh Prize. Mae ef yn frawd i Raymon Ll. Jones a Terry, teulu sydd wedi gwasanaethu'r band ers blynyddoedd.

Arweinydd y Band yw Mr. Frank Boylin sy'n byw yn Hen Golwyn ac yn athro cerdd gydag Awdurdod Addysg Clwyd. Bydd y Band yn cystadlu nesaf yn Preston ar yr 28ain o Fawrth. Trefnir bws o Lanrug. Os ydych am sedd ar y bws, holwch Mr. Neville Thomas, Rhyd y Delyn, Llanrug. Tua 50 ceiniog fydd pris sedd.

## CYMDEITHAS CHWIORYDD CAPEL MAWR

Nos Iau, Chwefror 5ed, cafwyd noson goffi. Dechreuwyd trwy ddefosiwn gan y Llywydd. Anfonwyd ein dymuniadau cynnes at y chwiorydd sy'n wael gartref ac yn yr ysbytai. Cafwyd y fantolen ariannol am y flwyddyn gan y trysorydd, Mrs. Jones, Ogwen. Rhoddwyd y coffi gan Mrs. C. Jones, Eryri, a Mrs. N. Jones, Gorwel. Diolchwyd iddynt gan Mrs. N. Roberts, Llys Eiddon. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 4ydd.

## MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd cyfarfod yn y Sefydliad Coffa ar y 10fed o Chwefror. Mrs. Enid Whiteside Thomas oedd yn y gadair yn absenoldeb y llywydd, Mrs. Evans, Lloc. Mrs. Jones a Mrs. Morris o Fethesda a roddodd hanes taith Merched y Wawr i Rwsia gan ddangos lluniau. Diolchwyd iddynt gan Mrs. N. Lovatt, Berwyn. Cafwyd adroddiad o bwyllgor y sir gan Mrs. Lovatt. Rhoddwyd y te gan Mrs. Megan Roberts, Miss L.M.Hughes, Miss Meirwen G. Roberts a Mrs. Vera Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs. C. Owen. Anfonwyd cofion y Gangen at Mrs. Eurwen Rowlands (dosbarthydd 'Y Wawr') sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl.

## CYMORTHFA

Cynhaliwyd Cymorthfa gan y Cynghorwyr Gwyn O. Jones a Charles Wyn Jones yn Sefydliad Coffa Llanrug o 10.30 a.m. hyd 12.15 p.m. ar Chwefror 14. Daeth nifer dda o bobl atynt i drafod eu problemau.

## OXFAM

Sefydlwyd Grŵp Oxfam Llanrug tuag wyth mis yn ôl, ac mae wedi cynnal amryw o weithgareddau i godi arian. Cynhelir y cyfarfod cyhoeddus blynyddol nos Fercher 10fed o Fawrth am 7.30 p.m. yn y Sefydliad Coffa. Gobeithir am gefnogaeth dda gan fod angen mwy o helpwyr o Lanrug a'r fro. Os na fedrwch ddod i'r cyfarfod a chwithau'n awyddus i helpu, cysylltwch â Linda Jones, Pant Mwyn, Llanrug (Ffôn : Caernarfon 3838) neu Marilyn Davies, Gladwyn, Station Rd., Llanrug.

## CYNGOR EGLWYSI EFENGYLAIDD

Nos Fawrth, Chwefror 10fed, dan nawdd yr uchod yng Nghapel Pontrhythallt cafwyd sgwrs ar Ddicter Cristnogol gan y Tad P. McNamara, offeiriad Pabyddol, Caernarfon. Llywyddwyd gan y Parch. G. Brewer. Siaradwyd ymhellach a diolchwyd gan Mr. W. A. Jones, Y Dalar Deg, Y Parch. W.O.Roberts, Mr. T.W.Thomas, Berwyn, Mr. Glyn Owen, Llys Eryri a Mrs. N. Roberts, Llys Eiddon. Cyfeiliwyd gan Mrs. M. Ll. Williams, Llys Awen.

## Y GOBEITHLU (Capel Mawr)

Dechreuwyd cyfarfodydd Chwefror 9 a 16 trwy ddefosiwn. Y cyntaf gan Sharon Lewis, Fron Helyg, a Janet Evans, Garnet, a'r ail gan G. Griffith, Tan y Fron. Yn y cyfarfod cyntaf dangoswyd dwy ffilm gan Mr. N. Roberts, Llys Eiddon, gyda'r projector yng ngofal Mr. John Williams, Gweledfa. Yn yr ail gyfarfod cymerwyd rhan yn y canu a'r adrodd gan Gwawr Owen, Emma Bernard, Susan Morris, Helen W. Jones, Marion Jones, Eleri Roberts, Menna L. Jones, Ian Trefor, Dylan Owen, Owen Eilir Jones. Llywyddwyd y ddau gyfarfod gan y Parch. W. O. Roberts.

## UNDEB Y MAMAU

Nos Fawrth, Chwefror 17eg yn y Rheithordy agorwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Rheithor. Mrs. Williams, y Rheithordy, oedd yn y gadair. Gwnaed trefniadau ar gyfer cinio blynyddol, a Noson Goffi ar Fawrth 11eg er budd Pendalar, adran Segontium. Cydymdeimlwyd â Mrs. Alwyn Williams, Llys Llywelyn, ar farwolaeth ei chwaer yn Warwick. Gwnaed y te gan Mrs. Alwyn Williams a Miss Gwennie Griffiths, Disgwylfa Terrace.

## GWESTY'R RHYTHALLT

Mewn ymdrech i roi hwb i gronfa Clybiau Plant dan Anfantais sy'n cael ei rhedeg gan y rhaglen deledu, 'Magpie,' casglodd y cwsmeriaid £10.

•

Mae'n dda clywed fod Mrs. Morris, Hafan, yn gwella ar ôl damwain.

## CARNIFAL

Penderfynwyd cynnal Carnifal eleni. Ceir manylion am y dyddiad mewn rhifyn arall o Eco'r Wyddfa.

# CWM-Y-GLO

## UNDEB Y MAMAU

Cafwyd cyfarfod yn Ysgol Gynradd Cwm-y-Glo, nos Fawrth, Chwefror 10fed. Pwnc Mrs. D. J. Jones, y siaradwr gwadd, oedd Gwaith Llaw. Cadeirydd y noson oedd Mrs. Williams, Rheithordy, a'r cyfeilydd oedd Miss Ceridwen Hughes. Darparwyd y te gan Mrs Higgins a Miss C. Hughes. Mrs. M.E.Hughes a dalodd y diolchiadau i'r siaradwr gwadd. Diolchwyd am y te gan Mrs. Williams, Nant Forgan.

## DYMUNIADAU

Dymunir adferiad buan i Mrs. M. Owen, Bryncrwn, sydd ar hyn o bryd yn aros gyda'i merch yn Llanrug.

•

Mae'n hyfryd gweld Mrs. K. Watkins, Dolwen, yn mentro allan. Bu yn yr ysbyty am ychydig ddyddiau ar ôl damwain ar y ffordd.

•

Dymunwn adferiad buan, ac anfonwn gofion yr ardal at Mrs. Annie Catrin Williams, Bodiestyn gynt, sydd yn yr ysbyty yn Lerpwl.

# CEUNANT

## DYMUNIADAU

Dymunwn wellhad buan i Miss Beryl Milligan, Gwynle, a dreuliodd amser yn ddiweddar yn ysbyty Abergele. Hefyd i Mrs. Berry, Menai Villa, sydd ar hyn o bryd mewn ysbyty yn Rhosneigr.

## CROESO

Estynnwn groeso i Mr. a Mrs. Bernard Smith a'u merch fach, Elaine, sydd wedi ymgartrefu ym Mhant Hyfryd. Mae Mr. Smith wedi prynu peiriannau drudfawr i ddechrau busnes engrafu ar fetelau a phlastigau ac i atgyweirio racedi tenis. Mae hefyd yn gyfrifydd profiadol. Dymunwn iddo bob llwyddiant yn y fenter.


**Gwesty Dolbadarn**

Tŷ Rhydd-Feddiant

**Llanberis**

FFÔN : LLANBERIS 277

Perchennog Aneuryn Jones

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd CANOLFAN DRECIO Holwch am ein telerau rhesymol



# PENISARWAUN

## SEFYDLIAD Y MERCHED

Bydd aelodau'r Sefydliad uchod yn cyfarfod yn yr ysgol ar y bedwaredd nos Fawrth o bob mis. Ein llywyddes am eleni yw Mrs. E. Porter, 1 Bryn Tirion, gyda Mrs. E. Jones, Cae Corniog, yn is-lywydd; Mrs. Percy Williams, 7 Bryn Tirion, yn Drysorydd a Mrs. M.G.Williams, Llys Iolen yn Ysgrifennydd. Cafwyd cyfarfod cynta'r flwyddyn hon ar nos Fawrth, Ionawr 27. Daeth nifer dda ynghyd ond oherwydd amgylchiadau, ni chafwyd neb i'n hannerch. Yn ystod y cyfarfod, llongyfarchwyd Mrs. W.J.Jones, 13 Bryn Tirion, ar fod yn Nain unwaith eto a dymunwyd yn dda i Mr. a Mrs. Eric Jones a'r ferch fach, Fflur, sydd yn awr yn byw yn y Waunfawr. Dymunwyd yn dda hefyd i Mr. David Morris Hughes sydd newydd ddychwelyd o'r ysbyty. Darparwyd y te gan Mrs. Elinor Jones, Mrs. Davies, Y Llythyrdy, a Mrs. Lewis, Pen Pwll Coch. Enillwyd y raffl gan Mrs. A. Williams, Meillionydd. Disgwylir Mrs. Vernon Owen, Brynrefail, i'n diddori nos Fawrth, Chwefror 24.

## CYNGOR ARFON – LLYS Y GWYNT

Erbyn hyn mae'r stad o dai newydd ym Mhenisarwaen wedi ei chwblhau. Mae'r tai wedi eu gosod ac mae'r tenantiaid yn barod i symud i mewn. Mae'r tai wedi eu gosod fel hyn :

Rhif 1. Mrs Glenys Owen a'r plant Rhif 2. Mrs Nesta Jones, Deiniolen. Rhif 3. Mrs Elizabeth Williams Llanrug. Rhif 4. Mrs Martha Green. Rhif 5. Mrs William Jones, Cefn Coed. Rhif 6. Mrs Gwennie Lewis. Rhif 7. Mr. a Mrs. Porter. Rhif 8. Mrs Katie Williams. Rhif 9. Mr a Mrs Hughie Davies. Rhif 10. Mr a Mrs Orwig Pritchard. Rhif 11. Mr Freeman. Rhif 12. Mrs Eurwen Roberts. Mae'r ardal yn dymuno'n dda iddynt yn eu cartrefi newydd.

## PARTI'R HEULWEN

Ar noson oer eithriadol gyda gwynt cryf o'r dwyrain a 5 gradd o rew, cawsom heulwen yn Ysgol Brynrefail cans ymysg y doniau lleol yr oedd Parti'r Heulwen yn cymryd rhan mewn cyngerdd i roi hwb ariannol i Eco'r Wyddfa. Mae'r Parti hwn o Benisarwaen wedi bod yn barod iawn ei gymwynas at achosion da y fro. Ar yr ail o Fawrth bydd y parti'n cynnal cyfarfod Gŵyl Ddewi i Sefydliad y Merched Llanfairfechan, ac ar Fawrth 3ydd bydd yng nghyfarfod Clwb y Bytholwyrdd yn y Groeslon. Dymuniadau da y fro i'r parti hwn a'n diolchiadau i'r cyfeilydd, Mrs Pat Jones, i'r cantorion, Mrs Katie Williams, Miss Mary Davies, Mrs Eluned Porter, Mrs N.M.Pritchard, Mrs Gwennie Lewis, Mrs Percy Williams, Mrs J. Price Jones a Mrs M.G.Williams, yr arweinydd.

## 30 MILLTIR YR AWR

Unwaith eto, codwyd, gan nifer o bobl y pentref, y cwestiwn o gael arwyddion atal gor-yrru ym Mhenisarwaen. Unwaith yn rhagor, aethpwyd â'r mater o flaen Cyngor Arfon. Cafodd y Cynghorydd swyddog o Adran Dechnegol Arfon i'r pentref i nodi'r mannau gorau i osod yr arwyddion. Awgrymwyd rhoi un wrth Gwyddfor ac un arall rhwng y Clwb a Racca. Yn anffodus, gwrthodwyd y cais rhesymol hwn gan Adran Priffyrdd a Thrafnidiaeth Gwynedd am y rhesymau canlynol : (1) Nid oes llawer o ddamweiniau ar ffyrdd y pentref. (2) Mae'r mwyafrif o yrrwyr yn mynd ar 27 m.y.a. drwy'r pentref. Fodd bynnag, maent yn cadw golwg ar y sefyllfa o bryd i'w gilydd.

## CRUD Y WAWR, Bryn Eglwys.

Stad o dai preifat yw Bryn Eglwys. Mae amryw o deuluoedd ifanc yn byw yn y tai hyn. Y teulu diweddaraf i ddod yno yw Mr. a Mrs. A. Elliott. Mae Mr. Elliott yn athro yn Ysgol Twtil. Daethant yma, y naill o Gyfford Llandudno, a'r llall (Mary) o'r Rhyl. Croeso i bawb ym Mryn Eglwys i'r pentref.

## MARW

Trist oedd clywed am farwolaeth un o gymeriadau'r pentref, sef Mr. Walter Owen, Tŷ Newydd. Claddwyd ef ym mynwent Llanddeiniolen.

## BEDYDD

Yn Eglwys Sant Helen ddydd Sul, Chwefror 15ed, bedyddiwyd Andrea Paterson, chwaer fach Berwyn, wyres Mr. a Mrs. Hughie Davies, a merch Mr. a Mrs. David Paterson. Y Parch. Geraint Edwards oedd yn gweinyddu.

## PRIODAS

Dyma gyfle i Eco'r Wyddfa ddymuno'n dda i Carys, merch Mr. a Mrs. Mowll, 19 Bryntirion, ac i David T. Jones, Aber, ar eu priodas Ionawr 31ain yn Eglwys Sant Helen. Yr organydd oedd Bryngwyn Griffith. Y tywysydd oedd Mr. Trefor Rowlands, a'r Ficer, y Parch. Geraint Edwards, oedd yn gweinyddu.

## U.F.O. ???

Tua 5.30 p.m., Sadwrn, Ionawr 31ain, gwelwyd fflach o olau glaswyn yn gwibio'n gyflym uwchben Pensarn a'r Lôn Las. Daeth y golau o gyfeiriad Sir Fon, ac aeth i'r De at yr Wyddfa.

## MAES CHWARAE

Y llynedd bu rhai o swyddogion Arfon yn garedig iawn yn derbyn dirprwyaeth o Bwyllgor Maes Chwarae Penisarwaen i drafod y cae chwarae. Cawsom wrandawiad teg gan Mr. D.L.Jones, Mr. Clwyd Williams a Mr. Gwilym Roberts. Yn sgil hir lythyru a'r drafodaeth ei hun, penderfynodd Cyngor Arfon edrych ar ôl y cae a'i ddatblygu. Cafodd y cae chwarae hwn ei sefydlu, ei redeg, a'i gynnal gan bwyllgor o bobl leol. Rhoddodd y rhain oriau o'u hamser hamdden at y gwaith. Newidwyd yr aelodau o bryd i'w gilydd. Dau o'r aelodau gwreiddiol sydd ar y pwyllgor o hyd, sef Mr. Hugh Williams, Tanyffordd, a Mr. Leslie Jones, Meillionydd.


CYN TROI I BELLAFOEDD BYD — DEWCH I WELD Y *Marina* AR GARREG EICH DRWS.




CAR DA, DIOGEL DIBYNADWY. BRITISH LEYLAND AR EU GORAU! GWARANT 12 MIS – FAINT BYNNAG A DEITHIWCH

MAE GENNYM GEIR AIL LAW RHAGOROL HEFYD!

GAREJ MINFFORDD

BRITISH LEYLAND Morris

BETHEL

PERCHENNOG T.R. & S. EVANS
FFÔN Y FELINHELI 451

# CHWEDLAU'R FRO



gan JOHN OWEN HUWS

**(Brodor o'r Waunfawr yw John Owen Huws, sydd bellach yn Gynorthwywr Ymchwil yn yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan Bydd yn gyfrifol am y golofn hon o fis i fis.)**

Mae plwyfi Llanberis, Llanrug a Llanddeiniolen yn arbennig o gyfoethog mewn diwylliant gwerin – yn straeon, dywediadau, crefftau a gwybodaeth draddodiadol. Pleser felly fydd sylwi ar ambell agwedd yn y golofn hon o fis i fis.

### YR WYDDFA

Mae gan y Cymry lawer o chwedlau i esbonio tarddiad enwau lleoedd. Dyna enw'r Wyddfa ei hun. Dyma fynydd uchaf Cymru a theilwng ydoedd ei gysylltu gyda'r Brenin Arthur. Dywedir i ddau frenin o'r enw Nynio a Peibio ffraeo dros bwy oedd piau'r wybren ac aeth yn rhyfel rhyngddynt. Lladdwyd y ddau gan gawr o'r enw Rhita a thorrodd eu barfau i'w gwneud yn glogyn. O glywed am eu tynged ymosododd gweddill brenhinoedd Prydain ar Rhita ond gorfu eto a chafodd eu barfau hwythau. Nid oedd bellach ond un brenin nad oedd wedi cael ei farf : Arthur ei hun. Daeth Arthur i ymladd â Rhita a chyfarfu ag ef ar yr Wyddfa. Y diwedd fu iddo ladd Rhita a gorchymyn gorchuddio'r corff a cherrig nes codi carnedd anferth. Dyma ystyr Gwyddfa – beddrod neu gofgolofn. Enw llawn y mynydd yw Gwyddfa Rhita Gawr. Ceir adlais o hyn yn enw'r clogwyn mawr sy'n codi o'r Glaslyn at y copa, sef Clogwyn y Garnedd.

### BRWYDR OLAF

Ar yr Wyddfa yr ymladdodd Arthur ei frwydr olaf. 'Roedd wedi clywed fod Medrawd a'i elynion yng Nghwm Llan, ac arweiniodd ei fyddin i'w cyfarfod. Gyrrodd Arthur ei elynion dros lepen yr Wyddfa ac i Gwm Dyli ond fel 'roedd yn eu herlid gollyngasant gawod o saethau ato a'i ladd. Claddwyd ei gorff yno ym Mwlch y Saethau, rhwng yr Wyddfa a'r Lliwedd, ac 'roedd Carnedd Arthur i'w gweld yno hyd yn gymharol ddiweddar.

Yn ôl chwedl arall, ni laddwyd Arthur ond yn hytrach ei glwyfo yn enbyd a'i gludo ar draws Llyn Llydaw gan dair brenhines i ogof ar y Lliwedd. Dywedir hefyd mai i'r llyn hwn y taflodd Bedwyr Galedfwlch, cleddyf Arthur.

Aeth milwyr Arthur, sef Llanciau Eryri, i ogof fawr ar y Lliwedd i ddisgwyl ail-ddyfodiad Arthur. Un dydd disgynnodd dafad i lawr y clogwyn a dringodd bugail Cwm Dyli ati. Er ei syndod canfu'r ogof, a llu o filwyr arfog yn cysgu ynddi. Pan geisiodd fynd i mewn iddi tarodd ei ben yn erbyn cloch a deffrodd y milwyr i gyd. Rhuthrodd y bugail allan ac ni feiddiodd neb ddychwelyd i'r ogof wedyn.

### MARCHLYN MAWR

Ceir hanes tebyg am y Marchlyn Mawr, sef i fab y Rhiwen ddarganfod ogof fawr yn y creigiau uwchlaw'r llyn a gweld ei bod yn llawn o drysorau. Trannoeth, ar doriad y dydd, cychwynnodd eilwaith am yr ogof ac ar ôl peth trafferth cafodd hyd iddi a sylweddoli mai eiddo Arthur oedd y trysor. Pan oedd ar afael yn ei goron clywodd sŵn fel mil o daranau ac aeth yr ogof yn ddu fel y fagddu. Ymbalfalodd allan ac edrych ar y llyn, oedd yn drochion gwyn drosto. Yna sylwodd ar gwrwgl yn dod tuag ato, a thair o wragedd hardd ynddo, ac yn cael eu rhwyfo gan greadur dychrynllyd. Dychrynodd am ei fywyd a rhuthrodd adref. Bu nifer o chwarelwyr Bethesda a Llanberis yn chwilio'r creigiau ar raffau ar ôl hyn ond ni chawsant hyd i'r ogof. Hyd y gwn, mae'r trysor yno hyd heddiw!

### PENISARWAUN

Dywed chwedl arall na laddwyd Arthur o gwbl ond iddo'n hytrach gilio gyda'i wŷr i ogof yn Eryri a ddangoswyd iddynt gan Myrddin. Dywedir eu bod yn gwledda ynddi o hyd ac mai dyna sut y cafodd Ffynnon Cegin Arthur ger Penisarwaun ei henw. Tybid mai brasder eu bwyd oedd y cen ar wyneb y dŵr ac mai mwg eu tân oedd y mwg a godai o'r Ffynnon.

Gobeithiaf fynd ymlaen i sôn am agweddau eraill ar ddiwylliant gwerin yr ardal yn y dyfodol. Cofiwch yrru gair ataf i neu'r Golygydd os bydd y chwedlau yma yn eich atgoffa am hanesion a glywsoch yn y gorffennol. Byddaf yn ddiolchgar o unrhyw gyfraniad gan ei bod yn bwysig cadw ein hanesion traddodiadol ar gyfer y dyfodol.

# DINORWIG

### CYFARCHIAD O DDINORWIG I 'ECO'R WYDDFA'

Clywodd trigolion yr ardal eco ergydion o'r chwarel am flynyddoedd maith. Yn Awst 1969 distawodd sŵn cŷn a morthwyl ac ergyd, ond erbyn hyn wedi cyfnod o ddistawrwydd clywir sŵn newydd ar garreg fedd yr hen chwarel. Bellach, clywir eco newydd ar ochr yr Elidir, eco peiriannau gwaith newydd, peiriannau 'Gwaith Pwer Trydan Dinorwig.' Gobeithir dod o hyd i nerth newydd yng nghrombil yr hen fynydd a welodd ymladdfa a sugno nerth i droi cerrig yn fara. Bellach daeth ffurfiau newydd o ennill bara. Pob llwyddiant i'r eco newydd yn yr ardal, ac i'r eco arall, "Eco'r Wyddfa."

### YN YR YSBYTY

Anfonir cofion cynnes at Mr. John H. Williams, 7 Maes Eilian yn Ysbyty Gallt y Sil ers peth amser, a Mrs. Nancy Rowlands, 8 Maes Eilian, yn Llandudno. Bu rhai eraill mewn ysbytai yn ddiweddar, Mr. a Mrs. Alun Phillips, 6 Maes Eilian; Mrs. Betty L. Roberts, 11 Maes Eilian. Da eu gweld yn gwella. Dymunir adferiad buan i rai eraill o'r ardal sy'n cwyno.

### CYMDEITHAS UNDEBOL DINORWIG

Yn y Ganolfan, nos Iau, Chwefror 5ed, diddorwyd aelodau'r Gymdeithas gan aelodau Sefydliad y Merched cangen Deiniolen trwy ganu, adrodd a sgetsiau.

### LLWYBR MAIN

Bu cryn bryder yn yr ardal ynghylch y Llwybr Main. Cawsom ar ddeall mai dim ond am gyfnod y bydd wedi cau. Ail agorir y llwybr gydag ychydig o newidiadau i'w gwrs yn y rhan isaf yn unig.

# BRYN-REFAIL

### PERSONOL

Llongyfarchiadau i Mr. Keith Jones, ail fab Mr. a Mrs. Eurwyn Jones, ac wyr Mrs. H. J. Jones a'r diweddar Mr. Owen Jones, Trem Eilian. Mae Keith wedi ennill gradd B.Sc. (Physeg) ym Mhrifysgol Auckland, Seland Newydd.

### YSGOL Y BABANOD

Yn ogystal â Chyngerdd Eco'r Wyddfa, cafodd plant yr ysgol gyfle arall i berfformio yn y festri mewn Noson Goffi a gwnaed elw sylweddol at gronfa'r ysgol. Dymuna Mrs. Lennon ddiolch yn gynnes am y gefnogaeth, a'r un pryd dymuna'r rhieni ddiolch i Mrs. Lennon a staff yr ysgol am eu gwaith.

### PERSONOL

Llongyfarchiadau i Mr. Hefin Closs Parry, mab Mr. a Mrs. Closs Parry, Bryniol, ac i Mr. David Roberts, mab yng nghyfraith Mrs. Megan Jones, Greuor Villa. Mae'r ddau wedi ennill gradd B.A y Brifysgol Agored.

### CLWB YR EFAIL

Nos Fawrth ddiwethaf o dan lywyddiaeth Mr. G. Pritchard, Glynafon, croesawyd i'r Clwb Mr. a Mrs. Peter Schofield, Llandegai, i roi sgwrs ddarluniadol ar 'Adar Gwynedd.' Diolchwyd iddynt gan Miss B. Owen, Orwig Terrace, a chefnogwyd gan Mrs. Meredydd Foulkes, Bryn Derw, a Mr. Bob Francis, Bryn Cottage. Rhoed y te gan Mrs. R. Williams, Isallt, Mrs. J. Roberts, Glandwr, a Mrs. Mair Williams, Orwig Terrace. Hefyd nos Fawrth, Chwefror 10, caed noson arall o ffilmiau dan ofal Mr. a Mrs. Welsby, Trem Eilian. Rhoed y te gan Mrs. J. Maxwell, Bro Dawel, a Mrs. Betty Knox, Siop Ganol. Yn ystod y cyfarfod pasiwyd ein bod i gael noson o Frethyn Cartref a swper yn y clwb i ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi.

### JONES – DONALD

Cyhoeddir dyweddiad rhwng Gwynfor, mab Mrs. Megan Jones a'r diweddar Mr. D.O.Jones, Greuor Villa, a Gillian, merch Mr. a Mrs. Robert Donald, 57 Alstonfield Road, Lerpwl. Llongyfarchiadau oddi wrth y ddau deulu.

# TAN-Y-COED

### "CLOGWYN CLIMBING GEAR"

Yn ddiweddar, bu Mr. Terry de Boo, Bryn Cwil, Tan y coed, a Mr. Denny Moorhouse, Gallt y Foel, yn Chicago, U.D.A., yn cynrychioli'r cwmni lleol yn Ffair Fasnach Chicago. Buont yn llwyddiannus a derbyn archebion gwerth £50,000 am offer dringo. Dyma'r offer a ddefnyddiwyd gan dîm o ddringwyr o Brydain yn ddiweddar pan orchfygwyd Everest o'r de-orllewin. Y mae teulu Mr. a Mrs. de Boo wedi cymryd eu lle yn hapus yng nghymdeithas yr ardal; eu tri phlentyn yn aelodau selog o Ysgol Sul Tan y Coed, ac yn barod wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Ysgol Sul, gwasanaethau'r plant, Diolchgarwch a'r Nadolig. Mae Paul, Victoria a Sarah yn prysur ddysgu Cymraeg ac yn mwynhau gwneud hynny.

### YSGOL FEITHRIN

Mae plant bach a staff yr Ysgol Feithrin yn anfon dymuniadau da i Mrs. Rowlands, cynorthwywr gyda'r plant bach. Mae Mrs. Rowlands mewn ysbyty yn Lerpwl ar hyn o bryd.

### PERSONOL

Llongyfarchiadau i Delyth Wyn Jones ar ddod yn ail am y gadair yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail. Dymuniad da a llongyfarchiadau ar eu dyweddiad i Alan, mab Mr. a Mrs. O.W.Thomas, 1 Tai Bryngwyn, a Carys, merch Mr. a Mrs. J.O.Jones, 23 Maes Llywelyn, Aberffraw.

Dymuniadau da am wellhad buan i Veronica Edmund Jones, 7 Maesgerddi, a ddaeth adref o Ysbyty Eryri ar ôl triniaeth law-feddygol.

Nos Sul, Chwefror 8fed, yng Nghapel Tan y Coed ffarweliwyd â Mr. a Mrs. Hugh Thomas, Garnedd, sydd yn symud o'r ardal i gartrefu yn Llanfairfechan. Ymadawodd y ddau gyda dymuniadau da eu cyd-aelodau, a chyda'u diolchgarwch am eu cyfraniad i gymdeithas yr Eglwys yn Nhan y Coed, lle mae Mr. Thomas yn flaenor. Heddiw, mae gan Eglwys Tan y Coed gegin hwylus, diolch i Mr. Thomas, a'i cododd yn ei oriau hamdden. Un enghraifft o'i lu cymwynasau. Gŵyr cydnabod Mr. a Mrs. Thomas am eu gweithgarwch cysylltiol ag Ysbyty Bryn-y-Neuadd, Llanfairfechan, ac mewn llawer cylch arall er budd rhai dan anfantais meddyliol.

Bydd Miss Ruth Martin, Fair Haven, yn teulio y pedwar mis nesaf yn gwneud gwaith ymchwil ar gyfer gradd Ph.D. ym Mhrifysgol Fenis. Cyn hyn bu Miss Martin ym Mhrifysgol Manceinion lle'r enillodd radd B.A. (Anrhydedd) mewn Hanes. Mae hi'n gyn-ddisgybl o Ysgol Gynradd Llanrug, Ysgol Brynrefail a Choleg yr Iwerydd. Mae dymuniadau da'r fro yn mynd gyda hi i'r Eidal.

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## Ysgol Brynrefail

### EISTEDDFOD

Cynhaliwyd Eisteddfod Flynyddol Ysgol Brynrefail brynhawn a nos Iau, 12fed Chwefror. Enillwyd y Gadair, a wnaed gan Mr. Robin Williams (Adran Gwaith Coed), gan Bronwen Williams. Cystadleuaeth y Gadair oedd ysgrifennu darn o farddoniaeth ar y testun "Rhyddid" ynghyd ag un o'r canlynol : Ysgrif – "Dylanwadau"; Stori Fer – "Tyfu"; Ymson – "Ffarwelio"; Traethawd – "Anghenion Ieuenctid Heddiw" Yn ail yn y gystadleuaeth daeth Delyth Wyn Jones, gyda Grace Helena Parry ac Anwen Jones yn gydradd drydydd. Llywydd yr Eisteddfod eleni oedd Mr. Iolo Huws Roberts, Waunfawr. Beirniadwyd y gwaith llên gan Mr. Gerallt Lloyd Owen, Llandwrog; y beirniad cerdd oedd Mr. Heward Rees, y Coleg Normal, a'r beirniad adrodd oedd y Parch. John Gwilym Jones, Bangor. Y tŷ buddugol yn holl weithgareddau'r Eisteddfod oedd Elidir (276½); yn ail 'roedd Eryri (225½); yn drydydd Gwyrfai (220), ac yn bedwerydd Eilian (203½). Enillwyr y mwyaf o farciau dan 15 oed oedd Dewi Wyn Williams (27), a ddaeth yn gyntaf am yr ail waith mewn tair blynedd, Helena Williams (25½), ac Annette Roberts (18). Enillwyr y mwyaf o farciau dros 15 oed oedd Bethan Bryan Jones (24½), Grace Helena Parry (21½), Bronwen Williams (16). Cyflwynwyd cwpanau i Bethan a Dewi. Bu llawer o gystadlu cyn yr Eisteddfod mewn llên a chrefft yn ogystal â'r cystadlu ar y llwyfan.



*Bronwen Williams*

### O LANRUG I NAIROBI

Yn ddiweddar anfonwyd llun o waith Arwel Thomas, 'Algwyn,' Llanrug, i Nairobi i'w arddangos yno. Arluniwyd y llun yng Nghaerfyrddin yn ystod gwyliau'r Pasg 1975, tra'r oedd Arwel yno ar gwrs a drefnwyd gan y Mudiad Addysg Gristnogol. Dewiswyd y llun, sydd yn dwyn y pennawd "Wyneb Cyfnewidiol Crefydd", i'w ddangos yng nghanolfan cynhadledd 'Cyfarfod y Cyngor Eglwysi Byd-eang" yn Nairobi. Deg ar hugain o luniau oedd yno i gyd, wedi eu hanfon o bob rhan o'r byd. Thema'r Cyfarfod hwn oedd 'Mae Iesu Grist yn rhyddhau ac yn uno.' Derbyniodd Arwel, sydd yn y chweched dosbarth, lythyr o ddiolch gan y Cyngor yn ei longyfarch ar ei waith.

### CYDWEITHREDIAD

Ar bnawn Mercher a dwy o ddisgyblion y chweched dosbarth i Bendalar yng Nghaernarfon. Ysgol ar gyfer plant methedig yw hon. Ceir dwy wahanol i ymweld â hi bob wythnos, fel bod pob un yn cael cyfle i fynd yno. Ym Mhendalar cânt gyfle i edrych o amgylch yr ysgol ac i ymweld â'r gwahanol ddosbarthiadau, gan gynnwys yr Adran Gofal Arbennig sy'n gofalu am blant â nam corfforol arnynt hefyd. Mae oedran y plant ym Mhendalar yn amrywio o tua dwyflwydd i ddeunaw, ac maent wedi eu rhannu i bedwar dosbarth. Os yw'r disgyblion o Frynrefail yn gyfarwydd â'r dosbarthiadau, cânt gyfle i ymuno yng ngwaith un dosbarth am y pnawn. Mae hyn yn cynnwys llawer o waith llaw ac yn y dosbarthiadau hynaf mae'r plant yn mynd allan i'r siop. Mae gwaith y plant i'w weld ym mhob ystafell yn adlewyrchu eu hyfforddiant a'u hymdrechion.

### TRIPIAU

Yn ystod yr wythnosau diweddar bu tripiau o'r ysgol i wahanol weithgareddau. Nos Fawrth, 27 Ionawr, aeth nifer o ddisgyblion i weld drama yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Perfformiwyd y ddrama "Saturday, Sunday, Monday" gan aelodau o gwmni drama'r ysgol. Aeth disgyblion Ysgrythur y pedwerydd, pumed a'r chweched dosbarth i weld ffilm "In the Beginning" yn sinema'r Majestic, Caernarfon ar ddydd Gwener, 13 Chwefror. Nos Wener, 6 Chwefror, trefnwyd trip i ddawns werin a gynhaliwyd yn Ysgol David Hughes gan ysgol gynradd Porthaethwy. Bu tripiau hefyd i Theatr Gwynedd, Bangor i weld y ddrama "Waiting for Godot" a ffilm Roman Polanski o Macbeth.

### BARDD CADEIRIOL CRICIETH YN YR YSGOL

Ar fore Mercher daw Mr. Gerallt Lloyd Owen i'r ysgol i roi gwersi ar y cynganeddion i ddosbarthiadau 3A a 4A.

### CYFARFOD ATHRAWON/ RHIENI

Bu cyfarfod rhwng athrawon Ysgol Brynrefail a rhieni disgyblion y pumed a'r chweched flwyddyn yn yr ysgol, nos Iau, Ionawr 29. Cynhaliwyd y cyfarfod i alluogi rhieni i drafod datblygiad a phroblemau eu plant gyda'r athrawon. 'Roedd hwn y cyfarfod cyntaf o'i fath i'w gynnal i rieni y pumed a'r chweched flwyddyn.

### ACHOSION DA

Y mae chweched dosbarth yr ysgol wedi anfon £50 i U.N.I.C.E.F. Bydd yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r gwaith da sy'n mynd ymlaen i ail-adeiladu Guatamala ar ôl y drychineb fawr fu yno'n ddiweddar. Daeth yr arian allan o Gronfa'r Chweched Dosbarth, sef cronfa mae'r disgyblion eu hunain yn gyfrifol amdani. Byddant yn cynnal amryw o weithgareddau yn ystod y flwyddyn i chwyddo'r gronfa. Casglodd disgyblion 5D ddeunaw punt i'w anfon i 'Apêl Magpie.'




*Rhai o blant Ysgol Gynradd Llanrug ar ôl derbyn Tystysgrif Cymhwyster Beicio Cenedlaethol gan Swyddog Atal Damweiniau Heddlu Gogledd Cymru, yr heddwas Elwyn Parry.*

### YSGOL GYNRADD PENISARWAUN ADRAN YR URDD


Mae Adran yr Urdd yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ar nos Fawrth. Eisoes cafwyd noson cwis; Mr. Gwyndaf Jones, Llanrug yn dangos sleidiau ar 'Ddiogelwch ar y Ffyrdd', a noson o gêm 'Chwilod.'

**HEBOG Bach**

*Cyhoeddir y dudalen hon gyda chydweithrediad Gwasg Gwynedd, cyhoeddwyr HEBOG, y comic misol.*




# Wil Wirion




Mae enwau 5 tref yng Nghymru wedi cael eu cuddio yn y brawddegau hyn. Fedrwch chi ddweud pa drefi ydyn nhw? Dyma un enghraifft ichi, sef enw dinas yn Lloegr:

*Mae hwn yn llun da i'n diddori.*

**Llundain**


Y mab a laddodd y crocodeil
Ar y gwrthban gorweddai cath
Byddai llwyth trymach yn llethu'r ceffyl
"Does dim posib' bod yn rhy lân", meddai'r fam
Gwelais wrth fynd allan dri'n dod i mewn

Mae 10 o bethau yn wahanol yn y ddau lun yma. Fedrwch chi ddod o hyd iddyn nhw?



**LLUN I'W LIWIO**






# SALI TRWYN SMWT



# Cyngerdd ECO'R WYDDFA

**Cafwyd noson i'w chofio yn neuadd Ysgol Brynrefail, Llanrug, nos Wener, Ionawr 30ain. Daeth dros 500 o drigolion y fro yno i gefnogi'r fenter ac i fwynhau eu hunain. 'Doedd yr un o'r dyrfa yn sylweddoli ar y pryd cymaint o wledd oedd o'u blaenau.**

SGLEIN

**Cyfrannodd wyth o ysgolion y fro tuag at y cyngerdd ynghyd â phedwar o bartion lleol. Ymddangosodd dros 150 o blant ar y llwyfan. Gwerthfawrogwyd ymdrechion yr artistiaid i gyd ac edmygwyd y sglein a'r hyfforddiant caboledig**



Plant Ysgol Babanod Brynrefail, a gymerodd ran yn y Cyngerdd. Bydd lluniau o'r ysgolion eraill yn ymddangos yn y rhifynnau nesaf.

**oedd y tu ôl i berfformiadau'r plant er na chawsant ond pythefnos i baratoi. Yn sicr, adlewyrchiad oedd yma o'r safon uchel o ddysgu a hyfforddi sydd yn mynd ymlaen yn ein hysgolion.**

DIOLCH

**Dymuna swyddogion a phwyllgor Eco'r Wyddfa ddiolch i'r canlynol am eu cyfraniadau a'u perfformiadau.**
**Ysgol Gynradd Llanrug; Ysgol Babanod Brynrefail; Ysgol Gynradd Penisarwaen; Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen; Ysgol Gynradd Cwm-y-Glo; Ysgol Brynrefail, Llanrug; Ysgol Gynradd Bethel ac Ysgol Gynradd Dolbadarn, Llanberis. Annette, Olwen a Marina Wyn Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig; Parti Heulwen, Penisarwaen; Rosalind a Myrddin Owen, Llanberis; Bethan B. Jones a Helena Parry, Ysgol Brynrefail; Parti Cynfi, Deiniolen.**

## Dyddiadur y Mis

**Chwefror 27, Nos Wener**
Clwb Eryri yn dathlu Gŵyl Ddewi ym Mhlas Tan Dinas.
**Chwefror 28, Nos Sadwrn**
Cangen Deiniolen o Blaid Cymru yn dathlu Gŵyl Ddewi ym Mhlas Gwyn, Pentrefelin.
**Mawrth 1, Dydd Llun.**
Llanberis. Clwb Methedig Eryri yn dathlu Gŵyl Ddewi yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. (Agored i'r cyhoedd).
**Mawrth 2, Nos Fawrth.**
Cyfarfod Gweddi Cenhadol yng Nghapel Nant Padarn am 7.00.
**Mawrth 3, Nos Fercher.**
Clwb y Mamau, Llanberis, yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda bwffe yn y Ganolfan am 7.30.
Adran yr Urdd, Ysgol Dolbadarn, yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda the parti.
Sefydliad y Merched Deiniolen yn cynnal Noson Lawen.
**Mawrth 4, Dydd Iau.**
Clwb yr Henoed, Llanberis, yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Fictoria am 12.30 a.m.
**Mawrth 5 - 7**
Rhai o aelodau'r Urdd o Ysgol Dolbadarn, Penisarwaen a Llanrug yn treulio penwythnos yng Ngwersyll yr Urdd, Glanllyn.
**Mawrth 7, Nos Sul.**
Cyngerdd gan Seindorf Arian Llanberis yng Nghapel Coch am 8.
**Mawrth 8, Nos Lun.**
Cymdeithas Eglwysi M.C. Llanberis, yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Erw Fair am 7.30.
**Mawrth 10, Nos Fercher.**
Cangen Merched y Wawr, Bethel yn dathlu Gŵyl Ddewi ym Mhlas Tan Dinas.
**Mawrth 13, Nos Sadwrn.**
Cangen Llanberis a Nant Peris o Blaid Cymru yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Dolbadarn am 7.30.
**Mawrth 15, Nos Lun.**
Cymdeithas Lenyddol Capel Nant Padarn, Llanberis, yn dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Gwynedd am 7.30.

Cangen ... Wawr yn ... yng Nglantra...
**Mawrth 16, No...**
Cyngor Eglwysi ... arfod yng Nghapel Gor... 7 o'r gloch.
**Mawrth 17, Nos Fercher.**
Cangen Cwm-y-Glo o Ferched y Wawr yn dathlu Gŵyl Ddewi yn yr ysgol am 7 o'r gloch.
**Mawrth 18, 19. Nos Iau a Gwener.**
Eisteddfod Eglwysi M.C. Llanberis a Nant Peris yng Nghapel Gorffwysfa.
**Mawrth 20, Dydd Sadwrn.**
Eisteddfod Gylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.
**Mawrth 25, Nos Iau.**
Cyfarfod o Sefydliad y Merched, Llanberis, yn y Ganolfan am 7 o'r gloch.
**Mawrth 26, Dydd Gwener.**
Arwerthiant gan Adran yr Urdd ym Methel.
**Mawrth 31, Nos Fercher.**
Cwmni Drama Llanberis yn perfformio 'Dedwydd Briodas' yn Ysgol Brynrefail, Llanrug am 7.30.

DYDDIADAU I'W COFIO

**Ebrill 3, Dydd Sadwrn**
Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor.
**Ebrill 7.** Cyngerdd gan Blant Ysgol Gynradd Llanrug yn Ysgol Brynrefail.
**Ebrill 8.** Cyfarfod Cyhoeddus yng nghwmni Dafydd Wigley, A.S., a chynghorwyr lleol yng Nghanolfan Llanberis am 7.30.
**Ebrill 17.** Dadorchuddio cofeb i'r diweddar T. Rowland Hughes tu allan i 20, Stryd Goodman, Llanberis, am 2 o'r gloch.
**Gorffennaf 9 - 17.** Wythnos Garnifal Llanberis.

**Anfoner manylion i Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis. Ffôn : Llanberis 220.**

# ANERCHIAD Y LLYWYDD

— MRS ELUNED ELLIS JONES

Aeth yn ystrydeb erbyn hyn i ddweud ei bod yn gyfnod o argyfwng ar yr iaith Gymraeg, y diwylliant Cymreig a dyfodol y fro Gymraeg. Ond mae'n ystrydeb, ysywaeth, sy'n wir. Hyd yn oed yng nghadernid Gwynedd, rhaid i ni, frodorion y fro Gymraeg ymegnio i warchod y sefyllfa. Yn oes y pethau mawr, ein dyletswydd ni yw gwarchod y pethau bach.

*"Cadwn y mur rhag y bwystfil,*
*Cadwn y ffynnon rhag y baw"*
chwedl Waldo am Gymru.

**Gobeithiwn y bydd ein papur bro "Eco'r Wyddfa" yn arf grymus i gynorthwyo pawb ohonom i wreiddio'n ddyfnach yn ein bro, i adnabod ein bro a magu balchder yn ei thraddodiadau, ei hanes, ei hiaith a'i phobl.**

Wrth wreiddio yn ein bro y magwn gadernid a sicrwydd; trwy ein gwreiddiau y down i ymwybod â'n gorffennol a magu hyder i'r dyfodol. Ein teyrngarwch a'n hymlyniad at ein bro a fydd yn angorion sicr mewn bywyd i bawb ohonom. Fel Syr Thomas Parry-Williams, er i ni grwydro ymhell o'n cynefin, fe fydd darnau ohonom "ar wasgar ar hyd y fro" am byth a bydd darnau o'r fro yn nwfn ein heneidiau ninnau.

Hyderwn felly y bydd i Eco'r Wyddfa asio pawb ohonom yn nes at ein gilydd a chreu ohonom gymdeithas glos a chynnes, ac yn rhyw help i'r rhai hynny a ymsefydlodd yn ein plith i fagu 'ymdeimlad o berthyn.'

Yn union fel y bu mynyddoedd y Preseli i Waldo :

"mur fy maboed
Wrth fy nghefn ym mhob
annibyniaeth barn."

Felly boed yr Wyddfa ac Eryri i ninnau ac i'n plant.

Boed i "Eco'r Wyddfa" hir oes o wasanaeth i bawb yn y fro hon.

**DYSGU CYMRAEG**
**Bwriadwn gyhoeddi colofn gogyfer â'r rhai sydd yn dysgu Cymraeg yn y rhifyn nesaf. Os gwyddoch chi am ddysgwyr, rhowch wybod iddynt.**

**ARCHEB BLWYDDYN ECO'R WYDDFA**

**Drwy'r post (12 rhifyn) £2**

Enw..............................

Cyfeiriad........................

.................................

.................................

.................................

*Anfoner at y Trefnydd Gwerthiant : Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug.*

